

Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd – Sgrinio Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol

Cyngor Sir Caerfyrddin

EBRILL 2024

Paratowyd gan:

Hannah Corcoran

Error! Reference source not found.

Paratowyd ar gyfer:

Ben Kathrens

Rheolwr Amddiffyn rhag Llifogydd a Diogelu'r
Arfordir

Cyngor Sir Caerfyrddin

Yr Adran Lle a Seilwaith

Ein Cyfeirnod: Adroddiad DRAFFT

[Reference Number]

Hannah Corcoran

Cyfarwyddwr Technegol Cysylltiol

Gwiriwr

Martina Girvan

Uwch-gyfarwyddwr Technegol

Adolygydd

Steve Cook

Cyfarwyddwr Technegol

Cymeradwywr

Rheoli Fersiynau

Fersiwn	Adolygiad Rhif	Dyddiad Cyhoeddi	Rhif y Dudalen	Disgrifiad	Adolygwyd gan
001	R01	11/04/2024	Dogfen gyfan	Adroddiad DRAFFT	DC

Paratowyd yr adroddiad hwn dyddiedig 11 Ebrill 2024 ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin (y "Cleient") yn unol â thelerau ac amodau'r penodiad dyddiedig 13 Mawrth 2024 (y "Penodiad") rhwng y Cleient ac **Arcadis Consulting (UK) Limited**("Arcadis") at y dibenion a nodir yn y Penodiad.Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, ni chaiff unrhyw unigolyn/unigolion arall/eraill ddefnyddio neu ddibynnu ar yr adroddiad hwn na'i gynnwys, ac nid yw Arcadis yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ddefnydd neu ddibyniaeth o'r fath ar yr adroddiad gan unrhyw drydydd parti arall.

Cynnwys

1	Cyflwyniad	1
1.1	Cefndir	1
1.2	Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol Sir Gaerfyrddin	1
1.3	Y Gofyniad am Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	1
2	Proses yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	1
2.1	Deddfwriaeth a Chanllawiau	1
2.2	Cefndir yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.....	2
2.3	Camau yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	3
2.4	Effeithiau Cyfunol	3
2.5	Diffiniad o Effeithiau Arwyddocaol	6
2.6	Ymagwedd at Adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.....	6
3	Adolygiad o Amcanion Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol Cyngor Sir Gaerfyrddin a Mesurau Lefel Uchel.....	7
3.1	Pwrrpas y Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol	7
3.2	Amcanion Strategol Sir Gaerfyrddin	7
3.3	Y Safleoedd a'r Ardaloedd Basn Afon	8
4	Adnabod Safleoedd Dynodedig Ewropeaidd.....	8
4.1	Asesu Effeithiau Arwyddocaol Tebygol – Sgrinio Safleoedd	15
4.2	Sgrinio Amcanion Strategol yr LFRMS	17
5	Effeithiau cyfunol gyda strategaethau a chynlluniau eraill.....	20
6	Asesiad Sgrinio o Effeithiau'r Amcanion Strategol Rheoli Perygl Llifogydd Lleol	20
7	Casgliadau Sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.....	22
	Appendix A.....	0
	Ymarfer Sgrinio Safleoedd Dynodedig.....	0

Tablau

Tabl 21 Categoriadau Canllawiau Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.....	4
Tabl 4 Dosbarthiad Safleoedd Dynodedig Trwy'r Ardaloedd Basn Afon1.....	9
Tabl 4-2 Ardal Basn Afon Teifi a safleoedd dynodedig sy'n bresennol.....	10
Tabl 4-3 Ardal Basn Afon Tywi Uchaf a safleoedd dynodedig sy'n bresennol.....	10
Tabl 4-4 Ardal Basn Afon Tywi Isaf a safleoedd dynodedig sy'n bresennol.....	11
Tabl 4-5 Ardal Basn Afon Cymoedd y Gorllewin a safleoedd dynodedig sy'n bresennol.....	11
Tabl 4-6 Ardal Basn Afon Aman a Lluchwr a safleoedd dynodedig sy'n bresennol.....	12
Tabl 4-7 Ardal Basn Afon Llanelli a safleoedd dynodedig sy'n bresennol.....	13
Tabl 48 Gwendraeth a Phorth Tywyn.....	13
Tabl 49 Safleoedd dynodedig y tu allan i ffin Cyngor Sir Gaerfyrddin.....	14
Table 4-10 Crynodeb Sgrinio Safleoedd Dynodedig.....	16
Tabl 4-11 Amcanion yr LFRMS a Sgrinio Safle Dynodedig.....	18
Tabl 1 Canlyniadau sgrinio amcanion strategol yr LFRMS.....	21

Ffigurau

Ffigur 3-1 Ardaloedd Basn Afon ar draws Sir Gaerfyrddin a nodir yn yr LFRMS..8

Atodiadau

Appendix A

Ymarfer Sgrinio Safleoedd Dynodedig

1 Cyflwyniad

1.1 Cefndir

Cynhyrchwyd y ddogfen hon gan Arcadis Consulting UK ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin mewn perthynas â'u Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol (LFRMS). Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi gofyn i Arcadis ymgymryd ag ymarfer Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd lefel uchel i benderfynu a fydd yr LFRMS yn cael unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol ar Safleoedd Dynodedig Ewropeaidd perthnasol. Mae'r ddogfen hon yn nodi canfyddiadau'r ymarfer Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn.

1.2 Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol Sir Gaerfyrddin

Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i bob un o'r 22 o Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol yng Nghymru gynhyrchu LFRMS. Mae Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (FCERM) yng Nghymru (y Strategaeth Genedlaethol) yn nodi bod dros 245,000 eiddo ledled Cymru mewn perygl o lifogydd o afonydd, y môr a dŵr wyneb, gyda bron i 400 eiddo hefyd mewn perygl o erydu arfordirol. Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn egluro, wrth i'r hinsawdd newid, y gallwn ddisgwyl i'r peryglon hynny gynyddu, gyda llifogydd amlach a mwy difrifol, lefelau'r môr yn codi a'r arfordir yn erydu ar gyfraddau cyflymach.

Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn nodi'r cyd-destun deddfwriaethol i weithgareddau FCERM yng Nghymru. Mewn rhai achosion mae hefyd yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gynhyrchu Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd (FRMP), o dan Reoliadau Perygl Llifogydd 2009.

1.3 Y Gofyniad am Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Mae Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn ofyniad o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, fel y'u diwygiwyd. Mae'n ofynnol i'r awdurdod cymwys sy'n llunio cynllun neu gynnig ymgymryd ag Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i benderfynu a yw unrhyw ran o'r cynllun neu'r cynnig yn debygol o effeithio ar safleoedd gwarchodedig. Felly, mae'r LFRMS hwn yn gofyn am sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd fan lleiaf.

2 Proses yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

2.1 Deddfwriaeth a Chanllawiau

Caiff yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn ei wneud yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth a'r canllawiau canlynol:

- Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, fel y'u diwygiwyd.
- Y Comisiwn Ewropeaidd, Rheoli Safleoedd Natura 2000: Darpariaethau Erthygl 6 o Gyfarwydddeb Cynefinoedd 92/43/EEC.
- Y Comisiwn Ewropeaidd, Dogfen Ganllaw ar Erthygl 6(4) o Gyfarwydddeb Cynefinoedd 92/43/EEC.
- Department for Communities and Local Government (2006) Planning for the Protection of European Sites: Appropriate Assessment. Guidance for Regional Spatial Strategies and Local Development Documents.

- Tyldesley D. and Chapman, C (2013) The Habitats Regulations Assessment Handbook.

2.2 Cefndir yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

O dan Erthygl 6 o'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd (a Rheoliad 105 o'r Rheoliadau Cynefinoedd):

Pan fo cynllun defnydd tir—(a) yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar safle Ewropeaidd neu safle morol alltraeth Ewropeaidd (naill ai ar ei ben ei hun neu'n gyfunol â chynlluniau neu brosiectau eraill), a (b) nad yw'n gysylltiedig yn uniongyrchol â rheoli'r safle neu'n angenrheidiol i wneud hynny, rhaid i'r awdurdod sy'n gwneud cynllun ar gyfer y cynllun hwnnw, cyn i'r cynllun ddod i rym, wneud asesiad priodol o'r goblygiadau ar gyfer y safle o ystyried amcanion cadwraeth y safle hwnnw.

Yn ogystal, mae'n fater o gyfraith bod Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ymgeisiol a Safleoedd o Bwysigrwydd Cymunedol (SCI) yn cael eu hystyried yn y broses hon; ymhellach, polisi'r Llywodraeth yw ystyried safleoedd a ddynodwyd o dan Gonfensiwn Ramsar 1971 ar gyfer eu gwlyptiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol (safleoedd Ramsar) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig posibl.

Caiff gofynion y Gyfarwydddeb Cynefinoedd eu gosod yn gyfraith a'u gweithredu gan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau, 2017, fel y'u diwygiwyd.

Mae Rheoliad 63, Rhan 1 o'r Rheoliadau Cynefinoedd yn nodi:

'Rhaid i awdurdod cymwys, cyn penderfynu ymgymryd â, neu roi cydsyniad, caniatâd neu awdurdodiad arall ar gyfer, cynllun neu brosiect sydd (a) yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar safle Ewropeaidd neu safle morol alltraeth Ewropeaidd (naill ai ar ei ben ei hun neu'n gyfunol â chynlluniau neu brosiectau eraill), a (b) nad yw'n gysylltiedig yn uniongyrchol â rheoli'r safle neu'n angenrheidiol i wneud hynny, wneud asesiad priodol o'r goblygiadau ar gyfer y safle hwnnw o ystyried amcanion cadwraeth y safle hwnnw.'

Mae Rheoliad 64, Rhan 1 o'r Rheoliadau Cynefinoedd yn nodi:

'Os yw'r awdurdod cymwys yn fodlon, yn niffyg atebion amgen, bod yn rhaid cynnal y cynllun neu'r prosiect am resymau hanfodol er budd cyhoeddus tra phwysig (a allai, yn amodol ar baragraff (2), fod o natur gymdeithasol neu economaidd), gall gytuno i'r cynllun neu'r prosiect er gwaethaf asesiad negyddol o'r goblygiadau ar gyfer y safle Ewropeaidd neu'r safle morol alltraeth Ewropeaidd (fel y bo'n berthnasol).'

Mae Rheoliad 68, Rhan 6 o'r Rheoliadau Cynefinoedd yn nodi:

'Lle, yn unol â rheoliad 64 (ystyriaethau budd cyhoeddus tra phwysig)— (a) cytunir ar gynllun neu brosiect, er gwaethaf asesiad negyddol o'r goblygiadau ar gyfer safle Ewropeaidd neu safle morol alltraeth Ewropeaidd, neu (b) lle caiff penderfyniad, neu gydsyniad, caniatâd neu awdurdodiad arall, ei gadarnhau ar adolygiad, er gwaethaf asesiad o'r fath,— rhaid i'r awdurdod priodol sicrhau bod unrhyw fesurau digolledu angenrheidiol yn cael eu cymryd i sicrhau bod cydlyniant cyffredinol Natura 2000 yn cael ei ddiogelu.'

Nod cyffredinol Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yw penderfynu, o ystyried amcanion cadwraeth a buddion cymwys safle, a fyddai prosiect, naill ai ar ei ben ei hun a/neu'n gyfunol â phrosiectau eraill, yn cael effaith andwyol arwyddocaol ar y safle Ewropeaidd. Os yw'r Sgrinio (cam cyntaf y broses, gweler Adran 2.3 am fanylion) yn dod i'r casgliad bod effeithiau arwyddocaol yn debygol, yna rhaid cynnal Asesiad Priodol i benderfynu a fydd effeithiau andwyol ar uniondeb y safle.

Dylid nodi, lle nodir yr angen am fesurau lliniaru i leihau effaith arwyddocaol debygol, yna ni ellir cynnwys mesurau o'r fath yn y Cam Sgrinio a rhaid ystyried yr effeithiau posibl mewn dyfarniad Asesiad Priodol (Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd (CJEU) (Achos People over Wind & Sweetman v Coillte Teoranta C-323/17)).

2.3 Camau yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Mae gofynion y Gyfarwydddeb Cynefinoedd yn cynnwys pedwar cam gwahanol:

Cam 1: Sgrinio yw'r broses sy'n nodi i ddechrau effeithiau tebygol prosiect neu gynllun ar safle Ewropeaidd, naill ai ar ei ben ei hun neu'n gyfunol â phrosiectau neu gynlluniau eraill, ac sy'n ystyried p'un a allai'r effeithiau hyn gael effaith arwyddocaol ar gyfarwydd cynefinoedd a/neu rywogaethau cymwys y safle. Mae'n bwysig nodi mai baich y dystiolaeth yw dangos, ar sail gwybodaeth wrthrychol, na fydd unrhyw effaith arwyddocaol; os gallai'r effaith fod yn arwyddocaol, neu os nad yw'n hysbys, byddai hynny'n sbarduno'r angen am Asesiad Priodol. Mae cyfraith achos Llys Cyfiawnder Ewrop i'r perwyl bod yn rhaid gwneud Asesiad Priodol, gan fabwysiadu'r egwyddor ragofalus, oni bai y gellir diystyru'r tebygolrwydd o effaith arwyddocaol ar sail gwybodaeth wrthrychol. Penderfynodd dyfarniad Ebrill 2018 Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd Ebrill na ellir cymryd mesurau lliniaru i osgoi neu leihau effeithiau niweidiol y cynllun neu brosiect ar safle Ewropeaidd i ystyriaeth yn ystod y cam sgrinio (Cam 1). Lle bo angen mesurau o'r fath, bydd cynllun neu brosiect yn gofyn am gynnal Asesiad Priodol (Cam 2).

Cam 2: Asesiad Priodol yw'r ystyriaeth fanwl o'r effaith ar gyfarwydd safle Ewropeaidd y prosiect neu'r cynllun, naill ai ar ei ben ei hun neu'n gyfunol â phrosiectau neu gynlluniau eraill, mewn perthynas ag amcanion cadwraeth y safle a'i adeiledd a'i swyddogaeth. Mae hyn er mwyn penderfynu p'un a fydd effeithiau andwyol ar gyfarwydd y safle ai peidio. Mae'r cam hwn hefyd yn cynnwys y gwaith o ddatblygu mesurau lliniaru i osgoi neu leihau unrhyw effeithiau posibl.

Cam 3: Asesiad o atebion amgen yw'r broses sy'n archwilio ffyrdd amgen o gyflawni amcanion y prosiect neu gynllun a fyddai'n osgoi effeithiau andwyol ar gyfarwydd y safle Ewropeaidd, pe na bai mesurau osgoi neu lliniaru yn gallu dileu effeithiau andwyol.

Cam 4: Asesiad lle nad oes atebion amgen yn bodoli a lle mae effeithiau andwyol yn parhau. Yng Ngham 4, gwneir asesiad i weld p'un a yw'r datblygiad yn angenrheidiol ai peidio am resymau hanfodol, sef er budd cyhoeddus tra phwysig (IROPI). Os felly, mae'r cam hwn hefyd yn cynnwys asesiad manwl o'r mesurau cydadferol sydd eu hangen i ddiogelu a chynnal cydlynid cyffredinol y rhwydwaith Natura 2000.

2.4 Effeithiau Cyfunol

Fel yr amlinellir yn Adran 2.2 uchod, mae'n angenrheidiol i Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ystyried effeithiau cyfunol â phrosiectau neu gynlluniau eraill.

Lle gallai agwedd ar brosiect gael rhywfaint o effaith ar nodwedd(ion) cymhwyso Safle Ewropeaidd, ond na fyddai effeithiau'r agwedd honno ar y prosiect yn unig yn arwyddocaol, bydd angen gwirio'r effeithiau cyfunol, yn gyntaf gydag effeithiau eraill yr un prosiect, ac yna gydag effeithiau unrhyw gynlluniau a phrosiectau eraill.

Os na ellir dileu'r rhagolygon o effeithiau cronol, mae angen ystyried sut y gallai ychwanegu effeithiau o brosiectau neu gynlluniau eraill greu effaith andwyol gyfunol ar Safle Ewropeaidd a fyddai'n arwyddocaol. Gan gymryd yr effeithiau na fyddent yn debygol o fod yn arwyddocaol ar eu pen eu hunain, mae angen penderfynu p'un a fyddai'r effeithiau hyn yn fwy tebygol neu'n fwy arwyddocaol pe bai effeithiau prosiectau neu gynlluniau eraill yn cael eu hychwanegu atynt. Gellir nodi'r rhan fwyaf o'r effeithiau cronol drwy'r nodweddion canlynol.

Mae'r Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn yn ystyried gofynion y Rheoliadau Cynefinoedd a'r canllawiau perthnasol a gynhyrchwyd gan David Tyldesley (Tyldesley D. a Chapman, C (2013) The Habitats Regulations Assessment Handbook.

At ei gilydd, y polisïau a sgriniwyd allan yn y sgrinio cychwynnol oedd y rheiny na allent arwain at 'ddatblygiad uniongyrchol' neu na allent fod â llwybr effaith i unrhyw un o'r safleoedd Ewropeaidd a nodwyd. Roedd hyn yn cynnwys polisïau sy'n ceisio diogelu'r amgylchedd hanesyddol a naturiol lleol yn uniongyrchol, neu'r rheiny sy'n cefnogi gweithrediad polisïau eraill ac felly na allent effeithio'n uniongyrchol ar safleoedd Ewropeaidd. Nid yw'r holl bolisïau sy'n cael eu sgrinio allan o'r asesiad manwl yn uniongyrchol gysylltiedig â safleoedd dyraniadau.

Fel y nodwyd gyda Chanllawiau Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd DTA, mae pob un o'r polisïau o fewn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) wedi cael ei adolygu yn erbyn y rhestr ganlynol o gategorïau sgrinio.

Tabl 21 Categoriadau Canllawiau Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Categori	Disgrifiad
Categori A:	Datganiadau cyffredinol o bolisi/dyheadau cyffredinol Dylai polisïau nad ydynt yn fwy na datganiadau cyffredinol o bolisi neu ddyheadau gwleidyddol cyffredinol gael eu sgrinio allan oherwydd na allant gael effaith arwyddocaol ar safle.
Categori B:	Polisïau sydd yn rhestru meini prawf cyffredinol ar gyfer profi derbynioldeb/cynaliadwyedd cynigion. Ni all y polisïau cyffredinol hyn gael unrhyw effaith ar safle Ewropeaidd a dylent gael eu sgrinio allan.
Categori C:	Cynnig y cyfeirir ato ond na chynigir gan y cynllun. Sgriniwch allan unrhyw gyfeiriadau at gynigion penodol ar gyfer prosiectau, megis y rheiny a nodir, er enghraifft, mewn fframweithiau polisi uwch megis Cynllun Gofodol Cymru neu Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol, sy'n ymwneud efallai â phrosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol. Bydd y rhain yn cael eu hasesu gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru. 'Prawf' defnyddiol ynghylch a ddylid sgrinio prosiect allan yn y cam hwn yw gofyn y cwestiwn: 'A yw'r prosiect yn cael ei ddarparu ar gyfer/yn cael ei gynig fel rhan o gynllun neu raglen arall ac a fyddai'n debygol o fynd rhagddo o dan y cynllun neu'r rhaglen arall, p'un a yw'r cynllun pwnc hwn yn cael ei fabwysiadu gyda neu heb gyfeirio ato?' Os mai 'ydy' yw'r ateb, bydd fel arfer yn briodol i sgrinio'r prosiect allan yn y cam hwn.
Categori D:	Polisïau diogelu'r amgylchedd/diogelu safleoedd/trothwy cyffredinol ar draws y cynllun. Polisïau yw'r rhain, a'u pwrpas amlwg yw diogelu'r amgylchedd naturiol, gan gynnwys bioamrywiaeth, neu i warchod neu wella'r amgylchedd naturiol, adeiledig neu hanesyddol, lle na fydd mesurau gwella yn debygol o gael unrhyw effaith andwyol ar Safle Ewropeaidd. Gellir eu sgrinio allan oherwydd o'u gweithredu mae'r polisïau yn debygol o ddiogelu safleoedd Ewropeaidd yn hytrach nag effeithio'n andwyol arnynt ac ni fyddent yn tanseilio eu hamcanion cadwraeth.
Categori E:	Polisïau neu gynigion sydd yn llywio newid mewn ffordd sydd yn diogelu safleoedd Ewropeaidd rhag effeithiau andwyol. Effaith y mathau hyn o bolisïau neu gynigion fydd llywio newid oddi wrth safleoedd Ewropeaidd y gallai'r newid effeithio ar eu nodweddion cymhwysol ac felly gellir eu sgrinio allan.

Categori	Disgrifiad
Categori F:	Polisïau neu gynigion na allent arwain at ddatblygu neu newid arall. Polisïau nad ydynt eu hunain yn arwain at ddatblygiad neu newid arall, er enghraifft, oherwydd eu bod yn ymwneud â dylunio neu feini prawf ansoddol eraill ar gyfer datblygu, megis deunyddiau ar gyfer datblygiad newydd. Nid ydynt yn sbarduno unrhyw ddatblygiad neu newidiadau eraill a allai effeithio ar safle Ewropeaidd a gellir eu sgrinio allan.
Categori G:	Polisïau neu gynigion na allent gael unrhyw effaith andwyol ddirnadwy ar safle. Polisïau sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer newid, ond na allent gael unrhyw effaith ddirnadwy ar safle Ewropeaidd, gan nad oes unrhyw gysylltiad na chyswllt achosol rhyngddynt â nodweddion cymhwysol unrhyw safle Ewropeaidd ac felly gellir ei sgrinio allan.
Categori H:	Polisïau neu gynigion (gwirioneddol neu ddamcaniaethol) na allai eu heffeithiau danseilio'r amcanion cadwraethol (naill ai ar eu pen eu hunain neu'n gyfunol ag elfennau eraill y cynllun hwn neu gynlluniau neu brosiectau eraill). Gall polisïau neu gynigion sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer newid ond na allent gael unrhyw effaith arwyddocaol ar safle Ewropeaidd, naill ai ar eu pen eu hunain neu'n gyfunol ag agweddau eraill o'r un cynllun, neu'n gyfunol â chynlluniau neu brosiectau eraill, gael eu sgrinio allan. Gall y rhain gynnwys achosion lle mae rhai effeithiau posibl a fyddai (ac yn ddamcaniaethol, hyd yn oed yn gyfunol) yn amlwg yn ddibwys ac na allent danseilio'r amcanion cadwraeth.
Categori I:	Polisïau neu gynigion a allai gael effaith arwyddocaol ar safle ar eu pen eu hunain. Dylai polisïau neu gynigion sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar safle Ewropeaidd ar eu pen eu hunain gael eu sgrinio i mewn.
Categori J:	Polisïau neu gynigion sy'n annhebygol o gael effaith arwyddocaol ar eu pen eu hunain. Byddai'r agweddau hyn o'r cynllun yn cael rhywfaint o effaith ar safle, ond ni fyddai'r effaith yn debygol o fod yn effaith arwyddocaol; felly rhaid eu gwirio am effeithiau cyfunol (cronnus). Yna byddant yn cael eu hail-gategoreiddio fel naill ai Categori K (dim effaith arwyddocaol yn gyfunol) neu Gategori L (sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol yn gyfunol), fel yr eglurir isod.
Categori K a L:	Polisïau neu gynigion sy'n annhebygol o gael effaith arwyddocaol naill ai ar eu pen eu hunain neu'n gyfunol (K) neu sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol yn gyfunol (L) ar ôl y prawf 'yn gyfunol'. Lle gallai agwedd ar gynllun gael rhywfaint o effaith ar nodwedd(ion) cymhwysol Safle Ewropeaidd, ond na fyddai effeithiau'r agwedd honno ar y cynllun ar eu pen eu hunain yn arwyddocaol, bydd angen gwirio effeithiau'r agwedd honno ar y cynllun yn gyfunol i ddechrau, gydag effeithiau eraill yr un cynllun, ac yna gydag effeithiau cynlluniau a phrosiectau eraill h.y. caiff polisïau neu gynigion na fyddant yn cael unrhyw effaith arwyddocaol debygol ar eu pen eu hunain neu'n gyfunol eu dosbarthu fel rhai Categori K. Caiff polisïau neu gynigion sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol yn gyfunol eu dosbarthu fel rhai Categori L. Bydd angen i bolisïau neu gynigion Categori L gael eu hystyried ymhellach o safbwynt effeithiau cyfunol posibl. Yn gyntaf, bydd hyn yn cael ei wneud gyda golwg ar agweddau eraill

Categori	Disgrifiad
	ar y Cynllun ei hun, ac yna gyda chynlluniau neu brosiectau eraill ar wahân, er enghraifft Cynlluniau Lleol cyfagos.
Categori M:	Polisiâu neu gynigion pwrpasol sy'n benodol i ardal, safle neu achos sydd â'r bwriad o osgoi neu leihau effeithiau andwyol ar safleoedd Ewropeaidd. Polisiâu neu gynigion sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun gyda'r bwriad o osgoi neu leihau effeithiau ar safle(oedd) Ewropeaidd penodol y gallai'r cynllun sy'n cael ei weithredu effeithio fel arall ar ei nodweddion cymhwysol.

Gall cynlluniau sy'n cael eu hystyried amrywio o ddogfennau cynllunio awdurdodau cyfagos i gynlluniau strategol sector-benodol ar bynciau fel perygl llifogydd.

Cynhaliwyd adolygiad o brosiectau a chynlluniau a allai gael effaith ar y cyd â'r datblygiad arfaethedig.

2.5 Diffiniad o Effeithiau Arwyddocaol

Rhan hanfodol o broses sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yw penderfynu p'un a yw'r cynigion yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar safleoedd Ewropeaidd ac, felly, p'un a fydd angen Asesiad Priodol arnynt. Dylid gwneud dyfarniadau ynghylch arwyddocâd mewn perthynas â'r buddiannau cymhwyso y mae'r safle o bwysigrwydd Ewropeaidd ar eu cyfer a hefyd ei amcanion cadwraeth. Mae diffiniad defnyddiol o effeithiau arwyddocaol 'tebygol' fel a ganlyn: '...mae tebygol yn golygu hawdd ei ragweld nid dim ond posibilrwydd ffansiol; mae arwyddocaol yn golygu nid yn ddibwys nac yn amherthnasol ond effaith a allai fod yn berthnasol i amcanion cadwraeth y safle' (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006).

Wrth ystyried a yw'r prosiect yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar safle Ewropeaidd, rhaid mabwysiadu dull rhagofalus:

- Dylid ystyried bod y prosiect yn 'debygol' o gael effaith o'r fath os na all yr ymgeisydd (ar sail gwybodaeth wrthrychol) eithrio'r posibilrwydd y gallai'r prosiect gael effeithiau arwyddocaol ar unrhyw safle Ewropeaidd, naill ai ar ei ben ei hun neu'n gyfunol â chynlluniau neu brosiectau eraill.
- Byddai effaith yn 'arwyddocaol' yn y cyd-destun hwn pe gallai danseilio amcanion cadwraeth y safle. Rhaid asesu'r risg honno yng ngoleuni ffactorau megis nodweddion ac amodau amgylcheddol penodol y safle Ewropeaidd dan sylw.

2.6 Ymagwedd at Adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Mae'r camau canlynol wedi'u cwblhau:

- Adnabod yr holl safleoedd Ewropeaidd yr effeithir arnynt o bosibl (gan gynnwys y rheiny y tu allan i'r ffin ddatblygu arfaethedig);
- Adolygiad o bob safle Ewropeaidd, gan gynnwys y nodweddion y dynodwyd y safle o'u herwydd, yr Amcanion Cadwraeth, a dealltwriaeth o'r statws cadwraeth presennol a bregusrwydd y nodweddion unigol i fgythyadau;
- Adolygiad o'r cynigion sydd â'r posibilrwydd o effeithio ar y safleoedd Ewropeaidd, ac a yw'r safleoedd yn agored i'r effeithiau hyn; ac
- Ystyried unrhyw effeithiau posibl yn gyfunol â phrosiectau eraill (neu gynlluniau).

3 Adolygiad o Amcanion Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol Cyngor Sir Caerfyrddin a Mesurau Lefel Uchel

Mae LFRMS Cyngor Sir Caerfyrddin yn nodi'r ffynonellau perthnasol o berygl llifogydd lleol:

- Dŵr wyneb ffo
- Dŵr Daear
- Cyrsiau dŵr cyffredin; ac mae'r LFRMS hefyd wedi ystyried:
- Llifogydd arfordirol oherwydd ei 90km o arfordir.

3.1 Pwrpas y Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol

Mae'r ddogfen LFRMS yn nodi'r dull cyffredinol o reoli perygl llifogydd yn Sir Gaerfyrddin a bydd yn cael ei chyhoeddi'n ffurfiol ochr yn ochr â chyhoeddi'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd (FRMP). Bydd y dogfennau hyn yn manylu ar sut y bydd llifogydd ar draws y sir yn cael eu rheoli a byddant yn cyd-fynd ag amcanion lleol, mesurau, polisïau a strategaethau cenedlaethol.

3.2 Amcanion Strategol Sir Gaerfyrddin

Ar gyfer yr LFRMS mae'r amcanion canlynol wedi'u llunio sydd hefyd yn cyd-fynd ag amcanion y Strategaeth Genedlaethol:

- A. Moderneiddio a datblygu dull thematig sy'n seiliedig ar risg o reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.
- B. Ennill data a gwybodaeth.
- C. Hyrwyddo dulliau o reoli llifogydd yn naturiol (NFM), draenio cynaliadwy ac atebion seiliedig ar natur.
- D. Addysgu, cynghori a grymuso ein cymunedau i ddod yn fwy cydnerth.
- E. Cynorthwyo cymunedau i addasu a hyrwyddo hyn a gweithio mewn partneriaeth.

Bydd yr amcanion strategol a nodwyd yn yr LFRMS yn cael eu cyflawni drwy gyfres o 10 o fesurau lefel uchel gan gynnwys:

1. Rheoli Digwyddiadau Thematig.
2. Cynnal piblinell o achosion busnes gwaith cyfalaf.
3. Cynyddu cydnerthedd cymunedol.
4. Ymgysylltu ac ymgynghori mwy â'r cyhoedd.
5. Hyrwyddo arloesedd a thechnoleg.
6. Datblygu ymagwedd seiliedig ar ddalgyrch at FCERM.
7. Rhoi cyngor arbenigol.
8. Rheoli gwaith FCERM o ganiatáu a chydlynio.
9. Mabwysiadu a dynodi systemau draenio a nodweddion FCERM.
10. Gorfodi.

Bydd llawer o'r amcanion a nodwyd yn yr LFRMS yn rhai nad ydynt yn cynnwys datblygu mesurau perygl llifogydd yn uniongyrchol nac yn cynnwys gwaith sy'n gofyn am gymryd tir. Fodd bynnag, bydd yr amcanion yn sbarduno'r broses o flaenoriaethu mesurau datblygu'n lleol a fydd yn lleddfu perygl llifogydd a byddant hefyd yn nodi'r risgiau o effeithiau llifogydd ar Safleoedd Gwarchodedig Ewropeaidd perthnasol.

Fel rhan o ddogfen LFRMS 2024, mae'r sir wedi'i rhannu'n saith Ardal Basn Afon ar wahân, lle nodwyd derbynyddion perygl llifogydd allweddol sydd wedi cynnwys Safleoedd Dynodedig Ewropeaidd.

3.3 Y Safleoedd a'r Ardaloedd Basn Afon

Mae'r Ardaloedd Basn Afon wedi'u nodi fel:

- Ardal Basn Afon Teifi.
- Ardal Basn Afon Tywi Uchaf.
- Ardal Basn Afon Tywi Isaf.
- Ardal Basn Afon Cymoedd y Gorllewin.
- Ardal Basn Afon Aman a Llwchwr.
- Ardal Basn Afon Llanelli.
- Ardal Basn Afon Gwendraeth a Phorth Tywyn



Ffigur 3-1 Ardaloedd Basn Afon ar draws Sir Gaerfyrddin a nodir yn yr LFRMS

4 Adnabod Safleoedd Dynodedig Ewropeaidd

Mae Tabl 4 **Dosbarthiad Safleoedd Dynodedig Trwy'r Ardaloedd Basn Afon¹** isod yn nodi'r gwahanol Ardaloedd Basn Afon o fewn yr LFRMS a'r 12 safle dynodedig o fewn ffin Cyngor Sir Gaerfyrddin sy'n dod o fewn ardal LFRMS. Mae rhai o'r safleoedd dynodedig yn bresennol ar draws sawl Ardal Basn Afon.

Tabl 4 Dosbarthiad Safleoedd Dynodedig Trwy'r Ardaloedd Basn Afon1

Ardal Afon	Basn	ACA Afon Teifi	ACA Cwm Doethie – Mynydd Mallaen	AGA Elenydd Mallaen	ACA Afon Tywi	ACA Cernydd Carmel	ACA Caeau'r Mynydd Mawr	ACA Caerfyrddin a'r Aberoedd	Bae	AGA Cilfach Tywyn	Safle Ramsar Moryd Byrri	ACA Môr Hafren	Ceg	AGA Caerfyrddin	Bae	ACA Cleddau	Afonydd
Teifi		✓															
Tywi Uchaf			✓	✓	✓												
Tywi Isaf					✓												
Cymoedd y Gorllewin								✓				✓		✓		✓	
Aman a Llŵchwr						✓	✓										
Llanelli								✓		✓	✓						
Gwendraeth a Phorth Tywyn								✓		✓	✓	✓		✓			

Fel y nodwyd yn Tabl 4 **Dosbarthiad Safleoedd Dynodedig Trwy'r Ardaloedd Basn Afon 1** uchod, mae nifer o'r safleoedd dynodedig yn dod o fewn ffiniau nifer o Ardaloedd Basn Afon. Mae Tabl 4-2 i Tabl 49 isod yn darparu disgrifiad lefel uchel o nodweddion cymhwysol y safleoedd dynodedig sydd wedi'u lleoli o fewn ffin Cyngor Sir Gaerfyrddin a gwmpesir gan yr LFRMS.

Tabl 4-2 Ardal Basn Afon Teifi a safleoedd dynodedig sy'n bresennol.

Safle Dynodedig	Disgrifiad Lefel Uchel
Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Teifi	Mae ACA Afon Teifi yn 122km o hyd ac yn rhedeg trwy Geredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro ac mae tua 715.58 hectar. Mae'n tarddu yn Llynnoedd Teifi ym Mynyddoedd Cambria ac yna mae'n disgyn i borfeydd ucheldir ac i dir fferm yn yr iseldir. Mae daeareg yr ACA yn bennaf yn gerrig mwd Ordoficaidd a Silwraidd, cerrig silt a thywodfaen, wedi'u mantellu gan ddyddodion Cwaternaidd. Mae rhywogaethau cymhwysol pwysig yr ACA yn cynnwys y Dyfrgi; Eog yr Iwerydd; Penlletwad; ac amryw o rywogaethau llyswennod pendoll. Mae gan Afon Teifi hefyd statws Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), gyda ffiniau hyn yn cyd-reddeg â ffiniau'r ACA. (CNC, 2022)

Tabl 4-3 Ardal Basn Afon Tywi Uchaf a safleoedd dynodedig sy'n bresennol.

Safle Dynodedig	Disgrifiad Lefel Uchel
Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Tywi	Mae ACA Afon Tywi yn 80 km o hyd ac yn rhedeg trwy Sir Gaerfyrddin, gan gwmpasu ardal o tua 363.45 hectar. Lleolir ei tharddle ym Mynyddoedd Cambria ac mae'n llifo i gronfa ddŵr Llyn Brianne. O'r fan hon mae'n llifo trwy gymoedd mynyddig ac yn y pen draw yn diweddu yn ACA Bae Gaerfyrddin a'r Aberoedd. Mae'r daeareg yn cynnwys alluvium, tywod rhewlifol a graean. Mae rhywogaethau cymhwysol pwysig yr ACA yn cynnwys Gwangen; Dyfrgi; Herlyn; Penlletwad; ac amryw o rywogaethau llyswennod pendoll. Mae gan ACA Afon Tywi ffiniau sy'n gorgyffwrdd â SoDdGA Afon Tywi. (CNC, 2022)
ACA Cwm Doethie – Mynydd Mallaen	Mae'r ACA hon wedi'i lleoli o fewn awdurdodau lleol Powys, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin yn rhan ddeheuol Mynyddoedd Cambria ac mae'n cynnwys dyffrynnoedd serth ac eangdiroedd uchel. Mae'n nodedig am ei chynefinoedd a'i bywyd gwyllt rhostir a choetir, yn enwedig ei bywyd adar. Mae hyn yn cynnwys Barcud Coch sy'n bridio, sy'n un o rywogaethau cymhwysol y safle, yn ogystal â rhostiroedd sych Ewropeaidd a hen goedwigoedd derw digoes gydag <i>Ilex</i> a <i>Blechnum</i> . (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, 2008)
AGA Elenydd Mallaen	Mae'r AGA hon wedi'i lleoli o fewn awdurdodau lleol Powys, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin yn rhanbarth ddeheuol Mynyddoedd Cambria. Mae hon yn rhychwantu dyffrynnoedd Cothi a Tywi uchaf

Safle Dynodedig	Disgrifiad Lefel Uchel
	i'r gogledd-orllewin o Lanymddyfri i ddyffrynnoedd Ystwyth, Elan a Gwy yn y gogledd. Creigiau o oes Silwraidd ac Ordoficaidd yw'r ddaear yn bennaf ac mae'r tirffurfiau yn nodweddiadol o 'ucheldiroedd llechi' de-ganol Cymru, gyda gwastadeddau wedi'u gwahanu gan ddyffrynnoedd ag ochrau serth. Mae'r rhywogaethau cymhwysol pwysig yn cynnwys Barcud Coch sy'n bridio a Llyriad y Dŵr arnofiol. Ymhlith y cynefinoedd allweddol y mae gorgorsydd, rhostiroedd sych Ewropeaidd, hen goedwigoedd derw digoes gydag <i>Ilex</i> a <i>Blechnum</i> ; glaswelltiroedd calaminaraidd <i>Violetalia calaminariae</i> ; a dyfroedd llonydd oligotroffig i fesotroffig <i>Isoeto-Nanojuncetea</i> (C, 2008)

Tabl 4-4 Ardal Basn Afon Tywi Isaf a safleoedd dynodedig sy'n bresennol.

Safle Dynodedig	Disgrifiad Lefel Uchel
Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Tywi	Gweler y disgrifiad uchod Tabl 4-3 ar gyfer y safle dynodedig fel y'i cyflwynir ar gyfer Ardal Basn Afon Tywi Uchaf.

Tabl 4-5 Ardal Basn Afon Cymoedd y Gorllewin a safleoedd dynodedig sy'n bresennol.

Safle Dynodedig	Disgrifiad Lefel Uchel
ACA Afonydd Cleddau	Mae'r ACA hon yn cwmpasu cyfanswm o tua 751.71 hectar ac mae'n cynnwys Cleddau Ddu a Chleddau Wen. Mae'r dalgylch yn dir amaethyddol yn bennaf gydag ardaloedd sylweddol o borfa barhaol, coetir llydanddail a llystyfiant lled-naturiol arall. Mae'r rhan fwyaf o'r priddoedd yn briddoedd o fath brown asidig llawn clai, a ddatblygwyd o dan orchudd coetir blaenorol ac sydd wedi goroesi, er bod yna ddyddodion mawnog a phriddoedd mawnog mewn rhai ardaloedd hefyd. (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, 2021)
ACA Ceg Môr Hafren	Mae'r ACA hon wedi'i lleoli ar draws dyfroedd glannau Cymru (CNC), dyfroedd mewndirol Lloegr (NE), a dyfroedd alltraeth y DU (JNCC), sy'n cwmpasu cyfanswm arwynebedd o 584994 hectar. Mae'r dyfnder dŵr o fewn y safle yn amrywio rhwng lefel y Llanw Dŵr Isel Cymedrig (MLWT) a 70m. Mae'r rhan fwyaf o'r safle tua 50m o ddyfnder ac mae'r dyfnder yn gostwng tuag at yr arfordir. Y nodwedd gymhwysol ar gyfer yr ACA yw Llamhidydd yr Harbwr. (JNCC, 2015; JNCC, 2019).
ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd	Mae'r ACA hon yn cynnwys aberoedd Afonydd Llŵchwr, Taf a Tywi (aberoedd gwastadedd arfordirol) a Gwendraeth (aber a adeiladwyd gan far). Mae'r bae'n cynnwys mathau o welyau môr bas gan gynnwys mwd, tywod a chreigiau. Mae nodweddion

cymhwysol pwysig yr ACA yn cynnwys aberoedd, fflatiau llaid a fflatiau tywod nad ydynt wedi'u gorchuddio gan ddŵr môr ar lanw isel; Dolydd heli'r Iwerydd (*Glauco-Puccinellietalia maritima*); *Salicornia* ac unflwyddiaid eraill yn coloneiddio llaid a thywod; cilfachau a baeau bas mawr; banciau tywod sydd wedi'u gorchuddio i ryw raddau gan ddŵr môr bob amser; Herlyn (*Alosa alosa*); a Gwangen (*Alosa fallax*). (CNC, 2018)

AGA Bae Caerfyrddin

Yr Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) hon oedd yr AGA gyntaf sy'n gyfan gwbl forol i gael ei dynodi yn y DU ym mis Mehefin 2003. Mae daeareg y safle yn cynnwys tywod, mwd, gwaddod a graean. Mae hyn yn ychwanegol at bresenoldeb craig islanwol (gan gynnwys riffiau creigiog), arfordir agored (gan gynnwys bae), arfordir caeedig (gan gynnwys amfae), gwaddodion islanwol (gan gynnwys banc tywod/llaid), ac aber. Prif nodwedd gymhwysol yr ACA yw'r Fôr-hwyaden Ddu sy'n gaeafu, gyda'r AGA yn un o'r safleoedd gaeafu pwysicaf ym Mhrydain ac Iwerddon ar gyfer y rhywogaeth hon. Mae cysylltedd cynefinoedd yn un o briodweddau pwysig strwythur a swyddogaeth ecosystem afonydd. Mae llawer o'r pysgod sy'n silio yn yr afon yn fudol, gan ddibynnu ar gynnal amodau addas ar eu llwybrau mudo er mwyn caniatáu i'r oedolion gyrraedd y cynefin silio sydd ar gael a'r pysgod ifanc i fudo i lawr yr afon. (JNCC, 2015; CNC, 2018)

Tabl 4-6 Ardal Basn Afon Aman a Lluchwr a safleoedd dynodedig sy'n bresennol.

Safle Dynodedig	Disgrifiad Lefel Uchel
ACA Caeau'r Mynydd Mawr	Mae'r ACA hon yn cwmpasu 25.06 hectar ac mae wedi'i lleoli yn Sir Gaerfyrddin. Mae'n cynnwys dolydd Molinia ynghyd ag ardaloedd o rostir gwlyb, glaswelltir asidig a glaswelltir niwtral sych. Mae'n cynnwys tair SoDdGA (Caeau Ffos Fach; Dolydd Broad Oak & Thornhill; a Caeau Lotwen) oddi mewn. Y safle hwn yw'r unig ACA a ddewiswyd ar gyfer iâr fach yr haf Britheg y Gors. Nodweddion cymhwysol yr ACA yw'r dolydd Molinia a grybwyllir uchod a Britheg y Gors. (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, 2012)
ACA Cernydd Carmel	Mae'r ACA yn cwmpasu ardal o 361.14 hectar o fewn Sir Gaerfyrddin, gyda'i ffiniau'n gorgyffwrdd â Gwarchodfa Natur Genedlaethol Carmel a chan rannu ffiniau â SoDdGA Cernydd Carmel. Mae'r ardal yn cynnwys amrywiaeth o gynefinoedd gan gynnwys coetir, glaswelltir, rhostir a chors, gyda thirllyn (llyn tymhorol) o ddiddordeb nodedig. Mae dosbarthiad y cynefin yn dibynnu ar y daeareg waelodol, sy'n cynnwys Calchfaen Carbonifferaidd yn gorwedd o dan Grut Melinfaen asidig. Prif gynefin cymhwysol y safle yw tirllynnoedd (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, 2011)

Tabl 4-7 Ardal Basn Afon Llanelli a safleoedd dynodedig sy'n bresennol.

Safle Dynodedig	Disgrifiad Lefel Uchel
Safle Ramsar Cilfach Tywyn	Mae'r safle Ramsar hwn yn ardal aberol fawr ac mae wedi'i leoli rhwng Penrhyn Gŵyr a Llanelli yn Ne Cymru. O'i fewn ceir ardaloedd eang o fflatiau tywod a llaid rhynglanwol, yn ogystal â systemau twyni tywod mawr yng ngheg yr aber. Mae'n cwmpasu cyfanswm arwynebedd o tua 6,672 hectar ac mae'r safle'n cynnwys y morfa heli di-dor mwyaf yng Nghymru (2,200 hectar). Mae'r safle hwn yn cynnal niferoedd o bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol o sawl rhywogaeth o adar dŵr sy'n gaeafu (Gwasanaeth Gwybodaeth Safleoedd Ramsar, 2005)
AGA Cilfach Tywyn	Mae'r AGA hon yn ardal aberol fawr o fflatiau tywod a llaid rhynglanwol ynghyd â systemau twyni tywod mawr. Mae glannau Cilfach Tywyn yn dywod symudol o faint mân a chanolig yn bennaf tra bod fflatiau llaid a fflatiau tywod Cilfach Tywyn yn raeon tywodlyd neu dywod lleidiog gan amlaf. Mae'r AGA yn bwysig gan ei bod yn cael ei defnyddio gan adar gwyllt sy'n gaeafu a rhydwyr sy'n bwydo yn yr ardaloedd rhynglanwol. Mae ei nodweddion cymhwysol yn cynnwys Pibydd yr Aber, Pioden y Môr, Hwyaden Lostfain, a Pibydd Coesgoch. (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, 2009)
ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd	Gweler y disgrifiad uchod yn Tabl 4-5 o dan Ardal Basn Afon Cymoedd y Gorllewin.

Tabl 48 Gwendraeth a Phorth Tywyn

Safle Dynodedig	Disgrifiad Lefel Uchel
ACA Ceg Môr Hafren	Gweler y disgrifiad uchod yn Tabl 4-5 o dan Ardal Basn Afon Cymoedd y Gorllewin.
AGA Cilfach Tywyn	Gweler y disgrifiad uchod

Tabl 4-7 ar gyfer Ardal Basn Afon Llanelli.

Safle Dynodedig	Disgrifiad Lefel Uchel
Safle Ramsar Moryd Byrri	Gweler y disgrifiad uchod

Tabl 4-7 ar gyfer Ardal Basn Afon Llanelli.

ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd	Gweler y disgrifiad uchod Tabl 4-5 ar gyfer Ardal Basn Afon Cymoedd y Gorllewin.
AGA Bae Caerfyrddin	Gweler y disgrifiad uchod Tabl 4-5 ar gyfer Ardal Basn Afon Cymoedd y Gorllewin.

Yn ogystal â'r safleoedd a nodwyd uchod, sy'n dod o fewn ffin Cyngor Sir Caerfyrddin, gellid cynnwys safleoedd dynodedig sydd y tu allan i ffin y Cyngor ond sydd â chysylltiad hydrolegol â'r Ardal LFRMS a allai hefyd gael ei heffeithio. Mae clustogfa chwilio 15km wedi'i chymhwyso i'r Ardal LFRMS/ffin Cyngor Sir Caerfyrddin ac mae wyth safle hefyd wedi'u cynnwys fel rhan o'r ymarfer sgrinio hwn o ystyried y potensial ar gyfer cysyllteddau hydrolegol. Gweler **Tabl 49** isod:

Tabl 49 Safleoedd dynodedig y tu allan i ffin Cyngor Sir Caerfyrddin

Safleoedd Dynodedig	Ffin Cyngor Sir Caerfyrddin / Pellter o'r Ardal LFRMS	Disgrifiad Lefel Uchel
ACA Bae Ceredigion	11.6 km	Mae cymeriad cyffredinol y safle yn cynnwys ardaloedd morol, cilfachau môr, twyni tywod arfordirol, traethau tywod, Machair, graean bras, clogwyni môr, ynysigau, cyrff dŵr mewndirol (dŵr llonydd a rhedegog), rhostir, prysgwydd, Maquis, a Garrigue, Phygrana, coetir llydanddail a chollddail. Ymhlith y nodweddion cymhwysol y mae banciau tywod, riffiau, ogofâu môr tanddwr neu rannol danddwr, dolffin trwyn potel, llysywen bendoll y môr, llysywen bendoll yr afon, morlo llwyd. (JNCC, 2024)
ACA Gweunydd Blaencleddau	2.1 km	Ymhlith y nodweddion cymhwysol y mae rhostiroedd gwlyb Gogledd yr Iwerydd gydag <i>Erica tetralix</i> , dolydd Molinia ar briddoedd calchog, mawnog neu gleiog llawn silt (<i>Molinia caerulea</i>), Gorgorsydd, Mignenni pontio a chorsydd crynedig, ffeniau alcalïaidd, https://sac.jncc.gov.uk/species/S1065/Britheg y Gors, Mursen y De (JNCC 2024)
ACA Coedwigoedd	10.3 km	Mae'r nodweddion cymhwysol yn cynnwys hen goedwigoedd o goed derw digoes gydag Ilex a Blechnum yn Ynysoedd Prydain. Coedwigoedd

Safleoedd Dynodedig	Ffin Cyngor Sir Caerfyrddin / Pellter o'r Ardal LFRMS	Disgrifiad Lefel Uchel
Gogledd Benfro	Sir	llifwaddodol gydag <i>Alnus glutinosa</i> a <i>Fraxinus excelsior</i> . Ystlumod du. (JNCC, 2024)
ACA Forol Benfro	Ardal Sir 14.6 km	Ymhlith y nodweddion cymhwysol y mae aberoedd, cilfachau a baeau bas mawr, riffiau, banciau tywod, fflatiau llaid a fflatiau tywod, morlynnoedd arfordirol, dolydd heli'r lwerydd, ogofâu môr, morlo llwyd, tafolen y twyni, llysywen bendoll y môr, llysywen bendoll yr afon, herlyn, gwangen, a'r dyfrgi (JNCC 2024)
Ardal Cadwraeth Arbennig Preseli	1.5 km y	Mae cymeriad cyffredinol y safle yn cynnwys Corsydd, Gwerni, llystyfiant ar ymylol dŵr, Ffeniau, Rhostir, Prysgwydd, Maquis a Garrigue, Phygrana, Glaswelltir sych, Stepdiroedd, Creigiau Mewndirol, Sgriau, Tywod, Eira a Rhew Parhaol. Ymhlith y nodweddion cymhwysol y mae rhostiroedd gwlyb Gogledd yr lwerydd gydag <i>Erica tetralix</i> , rhostiroedd sych Ewropeaidd, Pantiau ar swbstrad mawn <i>Rhynchosporion</i> , ffeniau alcaliaidd, Mursen y De, Britheg y Gors, mwsogl <i>Drepanocladus (Hamatocaulis) vernicosus</i> (JNCC 2024)
ACA Wysg	Afon 240m	Gyda'i tharddle, cronfa ddŵr Wysg wedi'i lleoli o fewn Ardal yr LFRMS, nid yw'r safle dynodedig yn cychwyn tan y tu hwnt i ffin y sir. Mae'r nodweddion cymhwysol yn cynnwys cyrsiau dŵr o lefelau gwastatir i fynydd-dir gyda llystyfiant <i>Ranunculus fluitantis</i> a <i>Callitriche-Batrachion</i> , Llysywen bendoll y môr, Llysywen bendoll y nant, Llysywen bendoll yr afon, Gwangen, Eog yr lwerydd, Penlletwad, Dyfrgi, Herlyn (JNCC 2024)
ACA Afon Gwy	2.6 km	Gyda'i tharddle wedi'i lleoli yng Ngorllewin Cymru. Mae nodweddion cymhwysol yr ACA yn cynnwys cyrsiau dŵr o lefelau gwastatir i fynydd-dir gyda llystyfiant <i>Ranunculus fluitantis</i> a <i>Callitriche-Batrachion</i> , mignenni pontio a chorsydd crynedig, Llysywen bendoll y môr, Llysywen bendoll y nant, Llysywen bendoll yr afon, Gwangen, Eog yr lwerydd, Penlletwad, Dyfrgi, Herlyn (https://sac.jncc.gov.uk/species/S1095/JNCC 2024)

Am fanylion sgrinio'r safleoedd dynodedig uchod gweler Appendix A.

4.1 Asesu Effeithiau Arwyddocaol Tebygol – Sgrinio Safleoedd

Fel rhan o'r broses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, cynhelir y cam cyntaf o "Sgrinio" i nodi pa gynlluniau neu brosiectau arfaethedig y mae angen eu hasesu ymhellach. Diben y ddogfen hon yw Sgrinio a bydd yn nodi a oes angen ystyried y Cynllun ymhellach mewn perthynas â'r Rheoliadau Cynefinoedd ac a oes angen Asesiad

Priodol. Mae'r safleoedd a nodwyd uchod wedi cael eu hystyried mewn perthynas â'r LFRMS a'u sgrinio mewn perthynas â'r meini prawf canlynol:

- Ardal Basn Afon a Maint
- Cysylltedd Hydrolegol
- Natur y Nodweddion Cymhwysol
- Pwysau Presennol
- Amcanion Cadwraeth

Mae manylion sgrinio'r meini prawf uchod i'w gweld yn Appendix A. Yn Table 4-10Nhabl 4-11 isod ceir crynodeb lefel uchel o'r safleoedd a sgriniwyd i mewn. Mae'r tabl yn Appendix A yn darparu ymarfer sgrinio manwl ac mae'n cynnwys y rheswm/cyfiawnhad dros y penderfyniad i sgrinio i mewn / allan.

O'r 12 safle a nodwyd sydd o fewn Ardaloedd Basn Afon Cyngor Sir Caerfyrddin a ffiniau'r LFRMS, maent i gyd wedi cael eu sgrinio i mewn i'w hasesu oherwydd eu cysylltedd hydrolegol a/neu eu topograffeg/lleoliad sy'n darparu llwybrau effaith posibl ar gyfer prosiectau yn y dyfodol o fewn yr Ardaloedd Basn Afon. O'r saith safle a nodwyd y tu allan i Ardaloedd Basn Afon Cyngor Sir Caerfyrddin ac Ardal yr LFRMS, cafodd dau safle eu sgrinio i mewn i'w hasesu ymhellach, sef ACA Bae Ceredigion, ac ACA Afon Wysg. Cafodd y pum safle sy'n weddill (ACA Gweunydd Blaencleddau; ACA Coedwigoedd Gogledd Sir Benfro; ACA Ardal Forol Sir Benfro; ACA Preseli; ACA Afon Gwy) eu sgrinio allan o asesiad pellach. Mae'r cyfiawnhad dros sgrinio i mewn/allan i'w weld yn Appendix A. Cyflwynir y 14 safle i gyd yn Table 4-10 isod, a bydd y rhain yn cael eu hystyried mewn perthynas ag amcanion strategol yr LFRMS a'u sgrinio yn erbyn y safleoedd dynodedig a nodwyd fel rhai perthnasol.

Table 4-10 Crynodeb Sgrinio Safleoedd Dynodedig

Safle Dynodedig	Ardal Basn Afon	Sgriniwyd i Mewn (gan gynnwys sail resymegol lefel uchel)
ACA Afon Teifi	• Teifi	Sgriniwyd i mewn - wedi'i leoli o fewn Ardal yr LFRMS ac wedi'i gysylltu'n hydrolegol.
ACA Afon Tywi	• Tywi Uchaf • Tywi Isaf	Sgriniwyd i mewn - wedi'i leoli o fewn Ardal yr LFRMS ac wedi'i gysylltu'n hydrolegol.
ACA Afonydd Cleddau	• Cymoedd Gorllewin	y Sgriniwyd i mewn - mae'r ACA hon ar ffin Ardal yr LFRMS ac mae llednentydd i'r ACA hon o fewn yr LFRMS felly mae wedi'i chynnwys fel pe bai o fewn Ardal yr LFRMS.
ACA Ceg Môr Hafren	• Gwendraeth Phorth Tywyn • Cymoedd Gorllewin	a y Sgriniwyd i mewn - wedi'i leoli o fewn Ardal yr LFRMS/ffin Cyngor Sir Caerfyrddin ac wedi'i gysylltu'n hydrolegol.
Safle Ramsar Cilfach Tywyn	• Llanelli • Gwendraeth Phorth Tywyn	a Sgriniwyd i mewn - wedi'i leoli o fewn Ardal yr LFRMS ac wedi'i gysylltu'n hydrolegol.
AGA Cilfach Tywyn	• Llanelli	Sgriniwyd i mewn - wedi'i leoli o fewn Ardal yr LFRMS ac wedi'i gysylltu'n hydrolegol.

Safle Dynodedig	Ardal Basn Afon	Sgriniwyd i Mewn (gan gynnwys sail resymegol lefel uchel)
	Gwendraeth a Phorth Tywyn	
ACA Caeau'r Mynydd Mawr	Aman a Lluchwr	Sgriniwyd i mewn - wedi'i leoli o fewn Ardal yr LFRMS ac wedi'i gysylltu'n hydrolegol.
ACA Bae Ceredigion	Y tu allan i'r LFRMS ond wedi'i gysylltu'n hydrolegol.	Sgriniwyd i mewn - er ei fod y tu allan i Ardal yr LFRMS/ffin Cyngor Sir Caerfyrddin, mae wedi'i gysylltu'n hydrolegol â'r LFRMS/Cyngor Sir Caerfyrddin.
ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd	- Llanelli - Cymoedd y Gorllewin - Gwendraeth a Phorth Tywyn	Sgriniwyd i mewn - wedi'i leoli o fewn Ardal yr LFRMS ac wedi'i gysylltu'n hydrolegol.
AGA Bae Caerfyrddin	- Gwendraeth a Phorth Tywyn - Cymoedd y Gorllewin	Sgriniwyd i mewn - wedi'i leoli o fewn Ardal yr LFRMS ac wedi'i gysylltu'n hydrolegol.
ACA Cernydd Carmel	Aman a Lluchwr	Sgriniwyd i mewn - wedi'i leoli o fewn Ardal yr LFRMS ac wedi'i gysylltu'n hydrolegol.
ACA Cwm Doethie – Mynydd Mallaen	Tywi Uchaf	Sgriniwyd i mewn - wedi'i leoli o fewn Ardal yr LFRMS ac wedi'i gysylltu'n hydrolegol.
AGA Elenydd Mallaen	Tywi Uchaf	Sgriniwyd i mewn - wedi'i leoli o fewn Ardal yr LFRMS ac wedi'i gysylltu'n hydrolegol.
ACA Afon Wysg	Y tu allan i'r LFRMS ond wedi'i gysylltu'n hydrolegol.	Sgriniwyd i mewn - er ei fod y tu allan i Ardal yr LFRMS/ffin Cyngor Sir Caerfyrddin, mae wedi'i gysylltu'n hydrolegol â'r LFRMS/Cyngor Sir Caerfyrddin.

4.2 Sgrinio Amcanion Strategol yr LFRMS

Mae Tabl 4-11 ystyried Amcanion Strategol yr LFRMS yn erbyn y safleoedd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a sgriniwyd i mewn sydd wedi'u nodi fel rhai perthnasol.

Mae'r polisiâu strategol mewn perthynas â'r safleoedd dynodedig wedi cael eu hystyried gyda golwg ar y categorïau fel y'u cyflwynwyd yn y Llawlyfr DTA fel a ganlyn:

- Dim effaith arwyddocaol debygol (LSE) ar statws cadwraeth/nodweddion cymhwysol y Safle Dynodedig.
- Effaith bosibl ar statws cadwraeth/nodweddion cymhwysol y Safle Dynodedig.
- Effaith bosibl arwyddocaol ar statws cadwraeth/nodweddion cymhwysol y Safle Dynodedig.
- Effaith anhysbys ar statws cadwraeth/nodweddion cymhwysol y Safleoedd Dynodedig.
- Dim effeithiau cyfunol gyda strategaethau neu bolisiau eraill.

Tabl 4-11 Amcanion yr LFRMS a Sgrinio Safle Dynodedig

Amcanion Strategol yr LFRMS					
Safleoedd Dynodedig a Sgriniwyd i Mewn	A*	B**	C***	D****	E*****
ACA Afon Teifi	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol
ACA Afon Tywi	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol
ACA Afonydd Cleddau	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol
ACA Ceg Môr Hafren	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol
Safle Ramsar Moryd Byrri	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol
AGA Cilfach Tywyn	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol

Amcanion Strategol yr LFRMS

Safleoedd Dynodedig a Sgriniwyd i Mewn		A*	B**	C***	D****	E*****
		effeithiau cyfunol	effeithiau cyfunol	effeithiau cyfunol	effeithiau cyfunol	
ACA	Caeau'r Mynydd Mawr	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol
ACA	Bae Ceredigion	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol
ACA	Bae Caerfyrddin Aberoedd	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol
AGA	Bae Caerfyrddin	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol
ACA	Cernydd Carmel	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol
ACA	Cwm Doethie – Mynydd Mallaen	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol
AGA	Elenydd Mallaen	Dim effaith arwyddocaol debygol neu	Dim effaith arwyddocaol debygol neu	Dim effaith arwyddocaol debygol neu	Dim effaith arwyddocaol debygol neu	Dim effaith arwyddocaol

Amcanion Strategol yr LFRMS

Safleoedd Dynodedig a Sgriniwyd i Mewn	A*	B**	C***	D****	E*****
	effeithiau cyfunol	effeithiau cyfunol	effeithiau cyfunol	effeithiau cyfunol	debygol neu effeithiau cyfunol
ACA Afon Wysg	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol	Dim effaith arwyddocaol debygol neu effeithiau cyfunol

A* Moderneiddio a datblygu dull thematig sy'n seiliedig ar risg o reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

B** Ennill data a gwybodaeth.

C *** Hyrwyddo dulliau o reoli llifogydd yn naturiol, draenio cynaliadwy ac atebion seiliedig ar natur.

D**** Addysgu, cyngori a grymuso ein cymunedau i ddod yn fwy cydnerth.

E***** Cynorthwyo cymunedau i addasu a hyrwyddo hyn a gweithio mewn partneriaeth.

5 Effeithiau cyfunol gyda strategaethau a chynlluniau eraill

Ar hyn o bryd, ni ddisgwylir unrhyw effeithiau yn gyfunol â strategaethau a chynlluniau eraill a fyddai'n cael effaith andwyol ar statws cadwraeth / nodweddion cymhwysol y safleoedd dynodedig. Disgwylir i'r LFRMS ar ei phen ei hun gael effeithiau buddiol hirdymor posibl ar y safleoedd dynodedig. Yn gyfunol â strategaethau a chynlluniau lleol eraill, rhagwelir y bydd gan y rhain effaith hirdymor gadarnhaol.

Mae amcanion yr LFRMS yn cyd-fynd â'r rheiny yn y Strategaeth Genedlaethol. Ar ben hynny, datblygwyd yr LFRMS mewn cydweithrediad â'r broses a'r cynlluniau cynllunio strategol canlynol:

- Cynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru
- Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr
- Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff Dŵr Cymru
- Cynllun Rheoli Asedau Network Rail

6 Asesiad Sgrinio o Effeithiau'r Amcanion Strategol Rheoli Perygl Llifogydd Lleol

Yn dilyn adolygiad o'r safleoedd sydd wedi'u lleoli o fewn Ardal yr LFRMS ac o fewn ffin Cyngor Sir Caerfyrddin yn ogystal â'r rheiny y rhagwelir y bydd ganddynt gysylltiad hydrolegol y tu hwnt i ffin y sir, canlyniad yr ymarfer sgrinio hwn yw na fydd yr LFRMS yn cael unrhyw effeithiau andwyol ar unrhyw un o'r safleoedd dynodedig a nodwyd.

Mae'r holl Amcanion Strategol yn ddatganiadau cyffredinol o bolisi/dyheadau cyffredinol sy'n galw i Gategori A o gategorïau'r DTA. Dylai polisïau nad ydynt yn fwy na datganiadau cyffredinol o bolisi neu ddyheadau gwleidyddol cyffredinol gael eu sgrinio allan oherwydd na allant gael effaith sylweddol ar safle.

Fodd bynnag, ar gam gweithredu'r Strategaeth byddai angen ail-sgrinio rhain gyda golwg ar y 14 safle a sgriniwyd i mewn i'r asesiad hwn. Mae **Tabl 1** isod yn darparu canlyniadau sgrinio amcanion strategol yr LFRMS a'i sail resymegol.

Tabl 1 Canlyniadau sgrinio amcanion strategol yr LFRMS

Amcan	Crynodeb o'r Canlyniad/ Trafodaeth
A	
Amcan:	Moderneiddio a datblygu dull thematig sy'n seiliedig ar risg o reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol
Canlyniad:	Dim effaith negyddol
Cyfiawnhau'r canlyniad:	Gall gweithredu dull strategol sy'n seiliedig ar risg annog ffocws penodol ar feysydd allweddol y mae angen eu rheoli.
B	
Amcan:	Ennill data a gwybodaeth
Canlyniad:	Dim effaith negyddol
Cyfiawnhau'r canlyniad:	Bydd cael data a gwybodaeth yn gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o berygl llifogydd o fewn Cyngor Sir Caerfyrddin ac yn galluogi gwell rheolaeth a lleihau effeithiau negyddol posibl llifogydd yn ogystal ag effeithiau eilaidd.
C	
Amcan:	Hyrwyddo dulliau o reoli llifogydd yn naturiol, draenio cynaliadwy ac atebion seiliedig ar natur
Canlyniad:	Dim effaith negyddol
Cyfiawnhau'r canlyniad:	Mae dulliau cynaliadwy yn lleihau ac mewn rhai achosion yn dileu'r angen i ddefnyddio technegau llai cynaliadwy a mwy ymwthiol yn amgylcheddol. Drwy roi dulliau mwy naturiol o reoli dŵr ar waith bydd yna fanteision yn y tymor hwy.
D	
Amcan:	Addysgu, cynghori a grymuso ein cymunedau i ddod yn fwy cydnerth

Amcan	Crynodeb o'r Canlyniad/ Trafodaeth
Canlyniad:	Dim effaith negyddol
Cyfiawnhau'r canlyniad:	Gall gwell gwybodaeth arwain at well rheolaeth a dulliau mwy penodol. Gall grymuso cymunedol gynyddu cydnerthedd ac arwain at newidiadau ar lawr gwlad.
E	
Amcan:	Cynorthwyo cymunedau i addasu a hyrwyddo hyn a gweithio mewn partneriaeth
Canlyniad:	Dim effaith negyddol
Cyfiawnhau'r canlyniad:	Gall cydweithio a rhannu gwybodaeth ar draws grwpiau cymunedol rymuso ac ysgogi mwy o gyfranogi o fewn y gymuned. Gall gweithio mewn partneriaeth a rhannu gwybodaeth am gyfleoedd ariannu hefyd wneud buddion lleol cadarnhaol.

7 Casgliadau Sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Mae polisïau'r LFRMS wedi cael eu sgrinio gan ystyried y gwahanol Ardaloedd Basn Afon a'r safleoedd dynodedig sy'n bresennol yn Ardal yr LFRMS ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin. I grynhoi, ni ragwelir ar hyn o bryd bod yr amcanion strategol yn mynd i gael unrhyw effeithiau negyddol andwyol ar y safleoedd dynodedig sy'n bresennol. Yn y tymor hir trwy weithredu, rhagwelir y bydd yr LFRMS yn cael effaith gadarnhaol ar y safleoedd dynodedig ac yn cyfrannu at ddiogelu a gwella eu statws cadwraeth a'u nodweddion cymhwysol sy'n bresennol.

Mae'r amcanion strategol yn cyd-fynd â diogelu a gwella safleoedd ac amgylcheddau naturiol Cyngor Sir Caerfyrddin a byddant yn darparu gwell mesurau diogelu. Yn seiliedig ar yr ymarfer sgrinio a gynhaliwyd ac a gyflwynir uchod, deuir i'r casgliad nad oes angen i'r LFRMS symud ymlaen i'r Cam Asesiad Priodol. Fodd bynnag, pan fydd yr LFRMS yn symud ymlaen i'r cam gweithredu (yr FRMP), dylid cynnal ymarfer sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd pellach o'r camau nesaf.

Appendix A

Ymarfer Sgrinio Safleoedd Dynodedig

Tabl Atodiad 1a Asesiad Sgrinio – Safleoedd Dynodedig

Safle Dynodedig	Ardal Afon	Basn	Cysylltedd Hydrolegol	Nodweddion Cymhwysol	Pwysau Presennol	Amcanion Cadwraeth	Sgriniwyd i mewn/allan	Cyfiawnhad
ACA Afon Teifi	Teifi		Oes	Cynefinoedd Atodiad I sy'n brif reswm dros ddewis y safle hwn: • 3260 Cyrsiau dŵr ar lefelau gwastatir i lefelau mynyddig â llystyfiant <i>Ranunculus fluitantis</i> a <i>Callitriche-Batrachion</i> Cynefinoedd Atodiad I yn bresennol fel nodwedd gymhwysol, ond heb fod yn brif reswm dros ddewis y safle hwn: • 3130 Dyfroedd llonydd oligotroffig i fesotroffig gyda llystyfiant <i>Littorelletea uniflorae</i> a/neu <i>Isoetes-Nanojuncetea</i> Rhywogaethau Atodiad II sy'n brif reswm dros ddewis y safle hwn: • 1096 Llysywen bendoll y nant <i>Lampetra planeri</i> • 1099 Llysywen bendoll yr afon <i>Lampetra fluviatilis</i> • 1106 Eog yr Iwerydd <i>Salmo salar</i> • 1163 Penlletwad <i>Cottus gobio</i> • 1355 Dyfrgi <i>Lutra lutra</i> • 1831 Llyriad-y-dŵr arnofiol <i>Luronium natans</i> Rhywogaethau Atodiad II sy'n bresennol fel nodwedd gymhwysol, ond heb fod yn brif reswm dros ddewis y safle: • 1095 Llysywen bendoll y môr <i>Petromyzon marinus</i>	• Mwyngloddio a chwarela (Risg ganolog, C01) • Rhywogaethau estron goresgynnol (Risg uchel, I01) • Newidiadau a achosir gan bobl mewn amodau hydrolog (Risg ganolog, J02) • Pysgota a chynaeafu adnoddau dyfrol (Risg ganolog, F02) • Ymyriadau ac aflonyddwch dynol eraill (Risg ganolog, G05) • Gweithgareddau chwaraeon a hamdden awyr agored, gweithgareddau hamdden (Risg isel, G01) • Llygredd aer, llygryddion a gludir gan aer (Risg uchel, H04) • Addasiadau ecosystemau eraill (Risg ganolog, J03) • Newidiadau mewn amodau anfiotig (Risg uchel, M01) • Torri glaswelltir (Risg isel, A03) • Llygredd i ddyfroedd wyneb (llynol a thirol, morol a halltlog) (Risg uchel, H01)	Er mwyn i'r holl nodweddion cymhwysol fod mewn statws cadwraeth ffafriol, gan gynnwys: • Dylai tiriogaeth naturiol y cymunedau planhigion a gynrychiolir o fewn y nodwedd o gyrsiau dŵr ar lefelau gwastatir i lefelau mynyddig fod yn sefydlog neu'n cynyddu yn yr ACA. • Er mwyn i boblogaethau rhywogaethau Llyswennod Pendoll, Eog yr Iwerydd a Phenlletwad yn yr ACA fod yn sefydlog neu gynyddu dros y tymor hir • Er mwyn i boblogaeth y Dyfrgwn yn yr ACA fod yn sefydlog neu gynyddu dros y tymor hir, ac mae hynny yn adlewyrchu capasiti cynnal y cynefin yn yr ACA fel y pennir hynny gan lefelau naturiol digonedd ysglyfaeth ac ymddygiad tiriogaethol cysylltiedig. Er mwyn i boblogaethau llyriad-y-dŵr arnofiol fod yn hyfyw drwy gydol eu dosbarthiad presennol yn yr ACA (gan gynnwys eu hunain yn hirdymor). Mae'n rhaid i bobl poblogaeth o lyriad-y-dŵr arnofiol allu atgenhedlu'n rhywiol a/neu yn llystyfiannol yn llwyddiannus. Mae'n rhaid i botensial am gyfnewidiad genetig rhwng poblogaethau llyriad-y-dŵr arnofiol, yn a/neu y tu allan i'r SAC, fod yn amlwg yn yr hirdymor. Mae'n rhaid i wasgariad llyriad-y-dŵr arnofiol fod yn ddirwysr.	Sgriniwyd i Mewn.	Wedi'i leoli o fewn yr Ardal Basn Afon ac felly wedi'i gysylltu'n hydrolegol.
ACA Afon Tywi	Tywi Uchaf Tywi Isaf		Oes	Rhywogaethau Atodiad II sy'n brif reswm dros ddewis y safle hwn: • 1308 Ystlum Du <i>Barbastella barbastellus</i> • 1355 Dyfrgi <i>Lutra lutra</i> Rhywogaethau Atodiad II sy'n bresennol fel nodwedd gymhwysol, ond heb fod yn brif reswm dros ddewis y safle:	• Llygredd i ddŵr wyneb (llynol a thirol, morol a halltlog) (Risg uchel H01) • Pori (Risg uchel A04) • Newidiadau a achosir gan bobl mewn amodau hydrolog (Risg uchel J02) • Newidiadau mewn amodau anfiotig (Risg uchel M01)	Fel rhan o'r prosiect 4 Afon LIFE i wella statws cadwraeth pedair afon ACA yng Nghymru, mae amcanion penodol y prosiect yn cynnwys: • Gwellu statws cadwraeth holl nodweddion Natura 2000 ar draws y 4 ACA i naill ai statws ffafriol neu statws adfer, trwy fynd i'r afael â ffactorau sy'n achosi cyflwr anffafriol, gan ganolbwyntio ar y nodweddion targed canlynol: Cyrsiau dŵr gyda llystyfiant <i>Ranunculus fluitantis</i> a <i>Callitriche-Batrachion</i> neu fwsoglau dyfrol, Eog yr Iwerydd (<i>Salar Salmo</i>), llysywen bendoll y môr (<i>Petromyzon marinus</i>), penlletwad (<i>Cottus gobio</i>), Herlyn (<i>Alosa alosa</i>), Gwangen (<i>Alosa fallax</i>) a Misglod Perlog yr Afon (<i>Margaritifera margaritifera</i>).	Sgriniwyd i Mewn.	Wedi'i leoli o fewn yr Ardal Basn Afon ac felly wedi'i gysylltu'n hydrolegol.

Safle Dynodedig	Ardal Basn Afon	Cysylltedd Hydrolegol	Nodweddion Cymhwysol	Pwysau Presennol	Amcanion Cadwraeth	Sgriniwyd i mewn/allan	Cyfiawnhad
			• 1095 Llysywen bendoll y môr <i>Petromyzon marinus</i> • 1096 Llysywen bendoll y nant <i>Lampetra planeri</i> • 1099 Llysywen bendoll yr afon <i>Lampetra fluviatilis</i> • 1102 Herlyn <i>Alosa alosa</i> • 1163 Penlletwad <i>Cottus gobio</i>	• Rhywogaethau estron goresgynnol (Risg ganolig I01) • Mwyngloddio a chwarela (Risg ganolig C01)			
ACA Afonydd Cleddau	Cymoedd y Gorllewin (mae'r ACA hon ar ffin Ardal yr LFRMS ac mae llednentydd i'r ACA hon o fewn yr LFRMS felly mae wedi'i chynnwys fel pe bai o fewn Ardal yr LFRMS)	Oes	Cynefinoedd Atodiad I yn bresennol fel nodwedd gymhwysol, ond heb fod yn brif reswm dros ddewis y safle hwn: • 3260 Cyrsiau dŵr ar lefelau gwastatir i lefelau mynyddig â llystyfiant Ranunculion fluitantis a Callitricho-Batrachion • 7110 Cyforgorsydd byw *Nodwedd â blaenoriaeth • 91E0 Fforestydd llifwaddodol gydag <i>Alnus glutinosa</i> a <i>Fraxinus excelsior</i> (<i>Alno-Padion</i>, <i>Alnion incanae</i>, <i>Salicion albae</i>) *Nodwedd â blaenoriaeth Rhywogaethau Atodiad II sy'n brif reswm dros ddewis y safle hwn: • 1096 Llysywen bendoll y nant <i>Lampetra planeri</i> • 1099 Llysywen bendoll yr afon <i>Lampetra fluviatilis</i> • 1163 Penlletwad <i>Cottus gobio</i> • 1355 Dyfrgi <i>Lutra lutra</i> Rhywogaethau Atodiad II sy'n bresennol fel nodwedd gymhwysol, ond heb fod yn brif reswm dros ddewis y safle: • 1095 Llysywen bendoll y môr <i>Petromyzon marinus</i>	• Pori (Risg ganolig, A04) • Addasiadau ecosystemau eraill (Risg ganolig, J03) • Cysylltiadau blodeuol rhyngrywogaethol (Risg ganolig, K04) • Newidiadau a achosir gan bobl mewn amodau hydrolig (Risg uchel, J02) • Newidiadau mewn amodau anfiotig (Risg uchel, M01) • Llygredd i ddyfroedd wyneb (llynnoedd a thirol, morol a halltog) (Risg uchel, H01) • Rhywogaethau estron goresgynnol (Risg ganolig, I01) • Llygredd aer, llygryddion a gludir gan aer (Risg uchel, H04)	Ar gyfer Llysywen bendoll y môr, Llysywen bendoll y nant, Llysywen bendoll yr afon, Penlletwad, Fforestydd llifwaddodol, Cyforgorsydd byw a Dyfrgwn, eu hamcan yw bod yn statws cadwraeth ffafriol lle bodlonir yr holl amodau a amlinellir yn y cynllun rheoli. Mae hyn yn cynnwys: • Er mwyn i boblogaethau pob un o'r tair rhywogaeth o lyswennod pendoll fod yn sefydlog neu gynyddu dros y tymor hir ac i diriogaeth naturiol y nodweddion yn yr ACA beidio â chael ei lleihau na bod yn debygol o gael ei lleihau hyd y gellir rhagweld. • Ar gyfer y Penlletwad, rhaid i boblogaeth y nodwedd yn yr ACA fod yn sefydlog neu gynyddu dros y tymor hir ac i diriogaeth naturiol y nodwedd yn yr ACA beidio â chael ei lleihau na bod yn debygol o gael ei lleihau hyd y gellir rhagweld. • Er mwyn i boblogaeth y dyfrgwn yn yr ACA fod yn sefydlog neu gynyddu dros y tymor hir, ac mae hynny'n adlewyrchu capasiti cynnal naturiol y cynefin yn yr ACA, yn ogystal â chael cynefin digonol i gynnal y boblogaeth yn y tymor hir. • Er mwyn i'r nodwedd o gyrsiau dŵr ar lefelau gwastatir i lefelau mynyddig sydd ag ardal wedi'i gorchuddio gan y nodwedd a'u cymunedau planhigion cysylltiedig o fewn yr ACA fod yn sefydlog neu gynyddu. • Er mwyn i'r nodwedd fforestydd llifwaddodol fod â chanopi wedi ei feddiannu gan edefynnau unigol o wernen <i>Alnus glutinosa</i> neu helygen <i>Salix spp.</i> Mewn coedwigoedd llifwaddodol gyda phriddoedd draenio rhydd gall fod yna ynn neu dderw yn y canopi, ond yn y coetiroedd llifwaddodol gwlypach mae ynn <i>Fraxinus excelsior</i> yn fwy tebygol o gael eu gyfyngu i ardaloedd o dir cymharol sychach. • Er mwyn i'r cyforgorsydd byw gael o leiaf 3 <i>Calluna vulgaris</i>, <i>Erica tetralix</i>, <i>Eriophorum angustifolium</i>, <i>E.vaginatatum</i> a <i>Trichophorum cespitosum</i> yn gyson, gyda gorchudd cyfun nad yw'n fwy na 80% ar gyfer y fignen. Ni fydd gan unrhyw un rhywogaeth orchudd o fwy na 50% ychwaith.	Sgriniwyd i Mewn.	Cysylltiad hydrolegol. Mae gan Cleddau lednentydd o fewn ffin Ardal LFRMS Cyngor Sir Caerfyrddin.

Safle Dynodedig	Ardal Basn Afon	Cysylltedd Hydrolegol	Nodweddion Cymhwysol	Pwysau Presennol	Amcanion Cadwraeth	Sgriniwyd i mewn/allan	Cyfiawnhad
ACA Ceg Môr Hafren	Gwendraeth a Phorth Tywyn Cymoedd y Gorllewin	Oes	Rhywogaethau Atodiad II sy'n brif reswm dros ddewis y safle: 1351 Llamhidydd yr Harbwr (<i>Phocoena phocoena</i>)	- Addasiadau ecosystemau eraill (Risg isel J03) - Pysgota a chynaeafu adnoddau dyfrol (Risg uchel F02) - Llygredd dŵr morol (Risg ganolig H03) - Lonydd llongau, porthladdoedd, adeiladau morol (Risg isel D03) - Archwilio ac echdynnu olew neu nwy (Risg isel C02) - Defnydd ynni anfiotig adnewyddadwy (Risg isel C03) - Defnydd milwrol ac aflonyddwch sifil (Risg ganolig G04)	- Amcan cadwraeth 1: Mae llamhidyddion harbwr yn rhan hyfyw o'r safle. Bwriad yr amcan hwn yw lleihau'r risg o anaf a lladd neu ffactorau eraill a allai gyfyngu ar allu llamhidyddion harbwr i oroesi a'u potensial atgenhedlu gan ddefnyddio'r safle. Mae'r amcan hwn yn ymwneud â gweithrediadau a fyddai'n arwain at lefelau annerbyniol a gellir eu diffinio fel y rheiny sy'n cael effaith ar Statws Cadwraeth Ffatriol poblogaethau'r rhywogaeth yn eu tiriogaeth naturiol. - Amcan cadwraeth 2: Nid oes aflonyddwch sylweddol i'r rhywogaeth: Mae aflonyddwch ar lamhidyddion harbwr fel arfer yn tarddu o weithrediadau sy'n achosi sŵn tanddwr gan gynnwys, er enghraifft, arolygon seismig, gyrru pyst sylfaen a sonar. Gall ymatebion i sŵn fod yn seicolegol a/neu'n ymddygiadol. Ymateb ymddygiadol i sŵn yw aflonyddwch yn bennaf, a gall arwain at ddadleoli llamhidyddion o'r ardal yr effeithir arni. - Amcan cadwraeth 3: Mae cyflwr cynefinoedd a phrosesau ategol, ac argaeledd ysglyfaeth yn cael ei gynnal. Mae cynefinoedd ategol yn golygu nodweddion gwely'r môr a'r golofn ddŵr. Mae cynnal cynefinoedd a phrosesau ategol yn cyfrannu at sicrhau bod ysglyfaeth yn cael ei chynnal o fewn y safle a'i bod ar gael i lamidyddion harbwr sy'n defnyddio'r safle. Mae llamhidyddion yr harbwr yn ddibynnol iawn ar gydol y flwyddyn ar fod yn agos at ffynonellau bwyd a gall eu dosbarthiad a'u cyflwr adlewyrchu'n gryf argaeledd a dwysedd ynni eu hysglyfaeth.	Sgriniwyd i Mewn.	Wedi'i leoli o fewn Ardaloedd Basn Afon Cyngor Sir Caerfyrddin ac felly wedi'i gysylltu'n hydrolegol.
Safle Ramsar Moryd Byrri	Llanelli Gwendraeth a Phorth Tywyn	Oes	Rhywogaethau Cymhwysol/poblogaethau (fel y nodwyd yn y dynodiad): Rhywogaethau â chyfrifau brig yn y gwanwyn/hydref: Pibydd Coesgoch cyffredin, <i>Tringa totanus totanus</i>, 857 o unigolion, sy'n cynrychioli 0.7% o boblogaeth Prydain ar gyfartaledd (cymedr brig 5 mlynedd 1998/9- 2002/3) Rhywogaethau â chyfrifau brig yn y gaeaf: Hwyaden Lostfain y Gogledd, <i>Anas acuta</i>, Gogledd-orllewin Europe 2687 o unigolion, sy'n cynrychioli cyfartaledd o 4.4% o'r boblogaeth (cymedr brig 5 mlynedd 1998/9-2002/3) - Pioden y Môr Ewrasiaidd, <i>Haematopus ostralegus ostralegus</i>, Ewrop a Gogledd-orllewin Affrica - 14861 o unigolion yn gaeafu, sy'n cynrychioli cyfartaledd o	- Defnydd milwrol ac aflonyddwch sifil (Risg ganolig, G04) - Gweithgareddau chwaraeon a hamdden awyr agored, gweithgareddau hamdden (Risg ganolig, G01) - Pysgota a chynaeafu adnoddau dyfrol (Risg ganolig, F02) - Llygredd dŵr morol (Risg ganolig, H03) - Llygredd aer, llygryddion a gludir gan aer (Risg isel, H04) - Newidiadau mewn amodau anfiotig (Risg uchel, M01)	Dim ar gael ar gyfer safle Ramsar. Sylwer bod safleoedd a ddynodir fel gwlyptiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol dan Gonfensiwn Ramsar yn ddarostyngedig i'r un darpariaethau â safleoedd Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol y DU.	Sgriniwyd i Mewn.	Wedi'i leoli o fewn yr Ardal Basn Afon ac felly wedi'i gysylltu'n hydrolegol.

Safle Dynodedig	Ardal Afon	Basn	Cysylltedd Hydrolegol	Nodweddion Cymhwysol	Pwysau Presennol	Amcanion Cadwraeth	Sgriniwyd i mewn/allan	Cyfiawnhad
				1.4% o'r boblogaeth (cymedr brig 5 mlynedd 1998/9-2002/3) Pibydd Coch, <i>Calidris canutus islandica</i>, Gorllewin a De Affrica 3618 o unigolion (gaeafu), sy'n cynrychioli cyfartaledd o 1.2% o boblogaeth Prydain (cymedr brig 5 mlynedd 1998/9-2002/3)				
AGA Tywyn	Cilfach	Llanelli Gwendraeth a Phorth Tywyn	Oes	Rhywogaethau Atodiad II sy'n brif reswm dros ddewis y safle: - A054 <i>Anas acuta</i> - A056 <i>Anas ciypeata</i> - A052 <i>Anas crecca</i> - A050 <i>Anas penelope</i> - A169 <i>Arenaria interpres</i> - A672 <i>Calidris alpina alpina</i> - A1473 <i>Calidris canutus</i> - A130 <i>Haematopus ostralegus</i> - A160 <i>Numenius arquata</i> - A141 <i>Pluvalis squatarola</i> - A048 <i>Tadorna tadorna</i> - A162 <i>Tringa totanus</i>	- Defnydd milwrol ac aflonyddwch sifil (Risg ganolig G04) - Gweithgareddau chwaraeon a hamdden awyr agored, gweithgareddau hamdden (Risg ganolig G01) - Pysgota a chynaeafu adnoddau dyfrol (Risg ganolig F02) - Llygredd dŵr morol (Risg ganolig H03) - Llygredd aer, llygryddion a gludir gan aer (Risg isel H04) - Newidiadau mewn amodau anfiotig (Risg uchel M01)	- Mae niferoedd holl rywogaethau adar yr AGA yn sefydlog neu'n cynyddu. - Mae digonedd a dosbarthiad ysglyfaeth addas yn ddigonol a phriodol er mwyn cefnogi niferoedd holl rywogaethau adar yr AGA. - Caniateir i holl adar yr AGA i drigo ar eu tiroedd porthianna ac ardaloedd gorffwys gyda chyn lleied o aflonyddwch â phosibl, a chaniateir iddynt symud yn ddirwysr rhyngddynt. - Mae pob cyflwr yr Amcanion Cadwraeth ar gyfer cefnogi cynefinoedd a rhywogaethau, yn ddibynnol ar brosesau naturiol, yn cael eu cyflawni a'u cynnal yn yr hirdymor. - Mae'r ffordd o reoli gweithgareddau neu weithrediadau sydd yn debygol o effeithio'n arwyddocaol ar biod môr yn briodol ar gyfer ei chynnal mewn cyflwr ffafriol a bod hynny yn ddiogel yn yr hirdymor.	Sgriniwyd i Mewn.	Wedi'i leoli o fewn yr Ardal Basn Afon ac felly wedi'i gysylltu'n hydrolegol.
ACA Caeau'r Mynydd Mawr	Aman a Llwchwr		Oes	Rhywogaethau Atodiad II sy'n brif reswm dros ddewis y safle: 1065 Britheg y Gors (<i>Eurodryas aurinia</i>) Cynefinoedd Atodiad I yn bresennol fel nodwedd gymhwysol, ond heb fod yn brif reswm dros ddewis y safle hwn: 6410 Dolydd Molinia ar briddoedd calchaid, mawnog neu gleiog-llawn-silt (<i>Molinion caeruleae</i>)	- Torri glaswelltir (Risg uchel A03) - Llygredd aer, llygryddion a gludir gan aer (Risg uchel H04) - Llygredd pridd a gwastraff solet (ac eithrio gollyngiadau) (Risg ganolig H05) - Pori (Risg uchel A04) - Esblygiad biocenotig, olyniaeth (Risg uchel K02) - Addasiadau ecosystemau eraill (Risg ganolig, J03)	Amcan cadwraeth ar gyfer Britheg y Gors (<i>Eurodryas aurinia</i>): - Bydd y boblogaeth yn hyfyw yn yr hirdymor, gan gydnabod amrywiadau eithafol y rhywogaeth o ran niferoedd. - Bydd cynefinoedd ar y safle mewn cyflwr optimaidd er mwyn cefnogi'r metaboblogaethau. - Poblogaethau'r ACA fydd craidd y metaboblogaeth. Bydd y metaboblogaeth yn cynnwys poblogaethau'r ACA a'r poblogaethau sydd yn bridio o fewn tua 2 cilomedr o ffiniau'r ACA. - Bydd o leiaf 13 hectar ar draws y tri SoDdGA cydrannol yn laswelltir mawnog sydd yn addas i gefnogi britheg y gors, a bydd <i>Succissa pratensis</i> yn bresennol a dim ond gorchudd isel o brysg. - Bydd o leiaf 6 hectar o hyn yn gynefin bridio britheg y gors mewn cyflwr da, ble, yn achos o leiaf 80% o'r pwyntiau sampl, bydd y llystyfiant twmpathog o fewn yr ystod o 12-25cm o daldra a bydd <i>Succisa pratensis</i> yn bresennol o fewn radiws pwynt sampl o 50cm. Ni fydd prysg <0.5m o daldra) yn gorchuddio mwy na 10% o'r ardal. - Bydd o leiaf 7 hectar arall o hyn yn gynefin bridio britheg y gors mewn cyflwr addas ble mae <i>Succisa pratensis</i> yn achlysurol/rheolaidd/helaeth ac mae uchder y llystyfiant fel arfer	Sgriniwyd i Mewn.	Wedi'i leoli o fewn yr Ardal Basn Afon ac felly wedi'i gysylltu'n hydrolegol.

Safle Dynodedig	Ardal Afon	Basn	Cysylltedd Hydrolegol	Nodweddion Cymhwysol	Pwysau Presennol	Amcanion Cadwraeth	Sgriniwyd i mewn/allan	Cyfiawnhad
						yn 12-25cm a bydd prysg (>0.5m o daldra) yn gorchuddio dim mwy na 10% o gyfanswm yr ardal. - Bydd y glaswelltir mawnog wedi ei gysgodi'n dda gan wrychoedd a choed aeddfed. - Mae'r holl ffactorau sydd yn effeithio ar lwyddiant yr amodau uchod yma yn cael eu rheoli. Amcan Cadwraeth 6410 Dolydd <i>Molinia</i> Ewropeaidd ar briddoedd calchaid, priddoedd mawnog neu briddoedd cleiog llawn silt: - Bydd nodwedd dŏl <i>Molinia</i> yn meddiannu rhwng 25% ac 80% o gyfanswm arwynebedd y safle. - Bydd gweddill y safle yn gynefin rhannol naturiol arall. - Bydd y planhigion canlynol yn gyffredin ar y dolydd <i>Molinia</i>: glaswellt y gweunydd <i>Molinia caerulea</i>; ysgallen y ddŏl <i>Cirsium dissectum</i>; tamaid y cythraul <i>Succisa pratensis</i>; hesgen lwydlas <i>Carex panicea</i> a thresgl y moch <i>Potentilla erecta</i>. - Hefyd bydd grug croesddail <i>Erica tetralix</i> a'r grug <i>Calluna vulgaris</i> yn gyffredin mewn rhai ardaloedd. - Ni ddylid gadael i frwyn ledaenu a bydd rhywogaethau sydd yn nodweddiadol o addasu amaethyddol, megis rhygwellt parhaol <i>Lolium perenne</i> a'r feillionen wen <i>Trifolium repens</i>, yn absennol ar y cyfan o'r ddŏl <i>Molinia</i>. - Hefyd bydd rhywogaethau prysg megis yr Helygen a'r Fedwen y absennol o'r ddŏl <i>Molinia</i>. - Mae'r holl ffactorau sydd yn effeithio ar lwyddiant yr amodau hyn yn cael eu rheoli.		
ACA Ceredigion	Bae D/B		Ydy	Cynefinoedd Atodiad I yn bresennol fel nodwedd gymhwysol, ond heb fod yn brif reswm dros ddewis y safle hwn: 1110 Banciau tywod sydd wedi'u gorchuddio i ryw raddau gan ddŵr môr bob amser 1170 Riffiau 8330 Ogofâu môr tanddwr neu rannol danddwr Rhywogaethau Atodiad II sy'n brif reswm dros ddewis y safle: 1349 Dolffin trwyn potel <i>Tursiops truncates</i> Rhywogaethau Atodiad II sy'n bresennol fel nodwedd gymhwysol, ond heb fod yn brif reswm dros ddewis y safle:	- Llygredd pridd a gwastraff solet (ac eithrio gollyngiadau) (Risg ganolig, H05) - Ymyriadau ac aflonyddwch dynol eraill (Risg ganolig, G05) - Llygredd dŵr morol (Risg ganolig, H03) - Pysgota a chynaeafu adnoddau dyfrol (Risg ganolig, F02) - Rhywogaethau estron goresgynnol (Risg ganolig, I01)	(I) Ar gyfer pob nodwedd gynefin: - Tiriogaeth naturiol a'r ardal y mae'n ei chwmpasu o fewn y diriogaeth honno: - sefydlog neu gynyddu - cyfanswm maint y nodwedd - dosbarthiad y nodwedd o fewn y safle - Strwythur a swyddogaethau penodol sy'n angenrheidiol er mwyn cynnal yn y tymor hir: yn bodoli ac yn debygol o barhau i fodoli hyd y gellir rhagweld: - strwythur ffisegol y cynefin - prosesau ffisiocemegol sylfaenol - cydosodiadau biotig - uniondeb ecolegol cyffredinol - rheolaeth i fod o fath priodol, ac yn sicr yn y tymor hir	Sgriniwyd i Mewn.	Cysylltiad hydrolegol. Afon Teifi yn gollwng i ACA Bae Ceredigion.

Safle Dynodedig	Ardal Basn Afon	Cysylltedd Hydrolegol	Nodweddion Cymhwysol	Pwysau Presennol	Amcanion Cadwraeth	Sgriniwyd i mewn/allan	Cyfiawnhad
			1095 Llysywen bendoll y môr <i>Petromyzon marinus</i> 1099 Llysywen bendoll yr afon <i>Lampetra fluviatilis</i> 1364 Morlo llwyd <i>Halichoerus grypus</i>		- Statws cadwraeth rhywogaethau nodweddiadol: ffafriol fel y'i diffinnir ar gyfer y nodweddion rhywogaethau isod: - rhywogaethau sy'n nodweddu'r cynefin, naill ai'n gyffredinol (h.y. yn ffurfio rhan o'i ddiffiniad), neu'n benodol ar y safle hwn (h.y. y rhai sy'n cyfrannu at arbenigrwydd lleol y cynefin) (ii) Ar gyfer pob nodwedd rywogaeth • Poblogaeth: cynnal ei hun yn yr hirdymor fel cydran hyfyw o'i chynefin naturiol: - maint poblogaeth - strwythur poblogaeth (e.e. strwythur oedran lle bo hynny'n berthnasol) - poblogaeth i fod yn hunangynhaliol yn y tymor hir, gan gynnwys ble mae'n agored i ffactorau y tu allan i'r safle - rheolaeth i fod o fath priodol, ac yn sicr yn y tymor hir • Tiriogaeth naturiol: ddim yn cael ei lleihau nac yn debygol o gael ei lleihau hyd y gellir rhagweld: - pob rhan o'r safle y mae'r boblogaeth yn ei defnyddio - os yw dosbarthiad cyfyngedig yn tanseilio cynhaliaeth y boblogaeth yn y tymor hir, efallai y bydd angen cynyddu'r diriogaeth - rhaid i reolaeth i fod o'r math priodol, ac yn sicr yn y tymor hir • Cynefin ategol: digon mawr i gynnal poblogaethau yn y tymor hir: - maint y cynefin o'r ansawdd priodol - strwythur a swyddogaethau (fel ar gyfer y nodweddion cynefin uchod)		
ACA Bae Caerfyrddin Aberoedd	Llanelli Cymoedd y Gorllewin Gwendraeth a Phorth Tywyn	Oes	Cynefinoedd Atodiad I sy'n brif reswm dros ddewis y safle hwn: 1110 Banciau tywod sydd wedi'u gorchuddio i ryw raddau gan ddŵr môr bob amser 1130 Aberoedd 1140 Fflatiau llaid a fflatiau tywod nad ydynt wedi eu gorchuddio â dŵr môr ar drai 1160 Cilfachau a baeau bas mawr 1310 Salicornia ac unflwyddiaid eraill yn coloneiddio llaid a thywod - Dolydd halen yr Iwerydd	- Rhywogaethau estron goresgynnol (Risg ganolig I02) - Llygredd i ddyfroedd wyneb (llynnol a thiol, morol a halltog) (Risg uchel H02) - Hela, pysgota neu weithgareddau casglu na chyfeirir atynt uchod (Risg ganolig F06) - Llygredd aer, llygryddion a gludir gan aer (Risg isel H04) - Newidiadau mewn amodau anfiotig (Risg ganolig M01) - Llygredd dŵr morol (Risg ganolig H03)	Amcan cadwraeth 2110 Egin-dwyni Symudol Ewropeaidd: - Bydd prosesau naturiol yn cael eu caniatáu er mwyn pennu yr amser a'r lleoliad pan fo'r egin-dwyni'n bodoli. Ni fydd y prosesau hyn yn cael eu heffeithio gan ymyrraeth ddynol anuniongyrchol. - Bydd traethell yn bresennol am o leiaf un flwyddyn o bob pump yn yr ardaloedd a glustnodwyd. - Bydd egin-dwyni yn bresennol ar ochr atfor cefnen y twyni blaen symudol o leiaf un flynedd o bob tair. - Mae'r holl ffactorau sydd yn effeithio ar y nodwedd hon yn cael eu rheoli. Amcan cadwraeth 2120 Twyni symudol Ewropeaidd ar hyd y draethlin gydag <i>Ammophila arenaria</i> (twyni gwyn):	Sgriniwyd i Mewn.	Wedi'i leoli o fewn yr Ardal Basn Afon ac felly wedi'i gysylltu'n hydrolegol.

Safle Dynodedig	Ardal Afon	Basn	Cysylltedd Hydrolegol	Nodweddion Cymhwysol	Pwysau Presennol	Amcanion Cadwraeth	Sgriniwyd i mewn/allan	Cyfiawnhad
				Rhywogaethau Atodiad II sy'n brif reswm dros ddewis y safle: 1103 Gwangen (<i>Alosa fallax</i>) Rhywogaethau Atodiad II sy'n bresennol fel nodwedd gymhwysol, ond heb fod yn brif reswm dros ddewis y safle: 1095 Llisywod pendoll y môr (<i>Petromyzon marinus</i>) 1099 Llisywod pendoll yr afon (<i>Lampetra fluviatilis</i>) 1102 Herlyn (<i>Alosa alosa</i>) 1355 Dyfrgi (<i>Lutra Lutra</i>)	- Llygredd pridd a gwastraff solet (ac eithrio gollyngiadau) (Risg isel H05) - Gweithgareddau trefoli, diwydiannol a gweithgareddau tebyg eraill (Risg uchel E06) - Dyframaethu Morol a Dŵr Croyw (Risg ganolig F01) - Lonydd llongau, porthladdoedd, adeiladau morol (Risg ganolig D03) - Pysgota a chynaeafu adnoddau dyfrol (Risg ganolig F02) - Newidiadau a achosir gan bobl mewn amodau hydrologig (Risg uchel J02) - Pori (Risg uchel A04) - Gweithgareddau chwaraeon a hamdden awyr agored, gweithgareddau hamdden (Risg ganolig G01)	- Bydd twyni symudol yn bodoli fel rhan o'r prosesau naturiol dynamig sydd yn creu'r systemau twyni. - Bydd yna ryngweithio rhwng y tair system twyni fel y bydd proses naturiol erydiad mewn rhai rhannau a chroniant mewn rhannau eraill yn parhau heb unrhyw aflonyddu dynol uniongyrchol neu anuniongyrchol. - Bydd twyni symudol yn cynnwys rhan arwyddocaol o'r system twyni ond bydd yn cynyddu a lleihau o ran maint a lleoliad wrth i brosesau naturiol bennu tirlun y systemau twyni. - Mae o leiaf dau o'r tri safle yn yr ACA yn bodloni'r cyfyngiadau a amlinellir yn y dangosydd perfformiad isod. - Mae'r holl ffactorau sydd yn effeithio ar y nodwedd hon yn cael eu rheoli. Amcan cadwraeth 2130 twyni sefydlog Ewropeaidd gyda llystyfiant llysieuol: - Bydd twyni sefydlog gyda llystyfiant llysieuol (twyni llwyd) yn bodoli pan fo twyni symudol hŷn yn dod yn fwy sefydlog ac yn ystod cyfnodau dilyniannol cynnar yn cael eu coloneiddio gan gennau a rhywogaethau eraill sydd yn nodweddiadol o newid o gynefin llai symudol. - Bydd y cynefin yn cwmpasu ystod o gyfnodau dilyniannol yn yr ardal yn gyfan gwbl, a hynny yn cael ei bennu gan batrymau o ffactorau naturiol a phori. - Bydd twyni llwyd yn cynnwys rhan arwyddocaol o'r system twyni ond bydd yn cynyddu a lleihau o ran maint a lleoliad wrth i brosesau naturiol bennu tirlun y systemau twyni. - Mae'r holl ffactorau yn cael eu rheoli. Amcanion cadwraeth 2170 twyni Ewropeaidd gyda <i>Salix repens ssp. Argentea</i> a 2190 llaciau twyni llaith Ewropeaidd: - Bydd twyni gyda <i>Salix repens</i> a llaciau twyni llaith yn bodoli fel rhan o'r system twyni, a bydd eu lleoliad yn cael ei bennu gan brosesau naturiol a rheolaeth briodol ar bori. - Bydd ystod o gyfnodau dilyniannol i'w canfod yn y ddwy nodwedd. - Bydd y ffactorau sydd yn effeithio ar y nodweddion yn cael eu rheoli. Amcan cadwraeth 1014 Malwen Droellog Geg Gul Ewropeaidd <i>Vertigo angusitor</i>: - Mae cynefin addas digonol yn bresennol i gefnogi niferoedd. - Mae'r ffactorau sydd yn effeithio ar y nodwedd hon yn cael eu rheoli. Amcan cadwraeth 1395 Llysiau'r Afu Petalaidd Ewropeaidd <i>Petalophyllum ralfsii</i>:		

Safle Dynodedig	Ardal Basn Afon	Cysylltedd Hydrolegol	Nodweddion Cymhwysol	Pwysau Presennol	Amcanion Cadwraeth	Sgriniwyd i mewn/allan	Cyfiawnhad
					- Gellir canfod y rhywogaeth ble mae'r amodau yn ffafriol a bod digon ohonynt i ffurfio poblogaeth hyfyw a chynaliadwy. - Bydd y niferoedd yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn dibynnu ar yr amodau, yn arbennig yn ystod blynyddoedd sychach, ond bydd y niferoedd hirdymor yn parhau i fod yn sefydlog a chynaliadwy. - Bydd gan laciau twyni addas rannau o dir moel sydd yn cael eu coloneiddio gan gen gludlog (<i>Collema spp.</i>) a mwsoglau Barbula. - Mae'r ffactorau sydd yn effeithio ar y nodwedd hon yn cael eu rheoli. Amcan cadwraeth 1903 Tegeirian y Fign Galchog <i>Liparis loselii</i>: - Mae cynefin addas digonol yn bresennol i gefnogi niferoedd. Mae'r ffactorau sydd yn effeithio ar y nodwedd hon yn cael eu rheoli.		
AGA Bae Caerfyrddin	Gwendraeth a Phorth Tywyn Cymoedd y Gorllewin	Oes	Rhywogaethau atodiad II yn bresennol fel nodwedd gymhwysol: A065 <i>Malanitta nigra</i>	- Llygredd aer, llygryddion a gludir gan aer (Risg isel H04) - Defnydd milwrol ac aflonyddwch sifil (Risg ganolig G04) - Llygredd dŵr morol (Risg ganolig H03)	- Mae niferoedd holl rywogaethau adar yr AGA yn sefydlog neu'n cynyddu. - Mae digonedd a dosbarthiad ysglyfaeth addas yn ddigonol a phriodol er mwyn cefnogi niferoedd holl rywogaethau adar yr AGA. - Caniateir i holl adar yr AGA i drigo ar eu tiroedd porthianna ac ardaloedd gorffwys gyda chyn lleied o aflonyddwch â phosibl, a chaniateir iddynt symud yn ddirwystyr rhyngddynt. - Mae pob cyflwr yr Amcanion Cadwraeth ar gyfer cefnogi cynefinoedd a rhywogaethau, yn ddibynnol ar brosesau naturiol, yn cael eu cyflawni a'u cynnal yn yr hirdymor. - Mae'r ffordd o reoli gweithgareddau neu weithrediadau sydd yn debygol o effeithio'n arwyddocaol ar biod môr yn briodol ar gyfer ei chynnal mewn cyflwr ffafriol a bod hynny yn ddiogel yn yr hirdymor.	Sgriniwyd i Mewn.	Wedi'i leoli o fewn yr Ardal Basn Afon ac felly wedi'i gysylltu'n hydrolegol.
ACA Cernydd Carmel	Aman a Lluchwr	Oes	Cynefinoedd Atodiad I sy'n brif reswm dros ddewis y safle hwn: 3180 Tirlynnoedd Cynefinoedd Atodiad I yn bresennol fel nodwedd gymhwysol, ond heb fod yn brif reswm dros ddewis y safle: 4010 Rhostiroedd Gwlyb Gogledd yr Iwerydd gydag <i>Erica tetralix</i> 4030 Rhostiroedd sych Ewropeaidd 7110 Cyforgorsydd byw - Fforestydd Tilio-Acerion ar lethrau, sgrïau a cheunentydd.	- Newidiadau a achosir gan bobl mewn amodau hydrolig (Risg uchel J02) - Newidiadau mewn amodau anfiotig (Risg uchel M01) - Llygredd aer – llygryddion a gludir gan aer (Risg uchel H04) - Rhywogaethau estron goresgynnol (Risg ganolig I01) - Cysylltiadau blodeuol rhyngrywogaethol (Risg ganolig K04) - Pori (Risg uchel A04) - Esblygiad biocenotig, olyniaeth (Risg ganolig K02) - Rhywogaethau brodorol problemus (Risg ganolig I02)	Amcan cadwraeth 3180 Tirlynnoedd Ewropeaidd: - Bydd y tirlyn yn llenwi ac yn gwagio yn unol ag amrywiadau tymhorol naturiol y ddyfrhaen dan yr wyneb. Yn nodweddiadol bydd yn llenwi â dŵr yn nghyfnod yr hydref-gwanwyn ac yn gwagio yn ystod misoedd yr haf. - Bydd patrwm naturiol a barthau llystyfiant yn amlwg yn ystod cyfnod sych y tirlyn, fel y pennir hynny gan amrywiad micro-dopograffig ym masn y tirlyn mewn perthynas â'r prif lyncdwill. - Bydd y parthau llystyfiant canlynol, ynghyd â rhywogaethau cysylltiedig nodweddiadol, yn bresennol: parth hydroffytig bryoffit; parth <i>Equisetum fluviatile</i>; parth <i>Carex vesicaria</i>; parth <i>Phalaris arundinacea</i>; parth coetir <i>Salix cinerea-Galium Paulustre</i>. - Bydd rhywogaethau o blanhigion estron megis <i>Crassula helmsii</i>, <i>Hydrocotyle ramuculoides</i>, <i>Myriophyllum aquaticum</i> ac <i>Azolla filiculoides</i> yn absennol.	Sgriniwyd i Mewn.	Wedi'i leoli o fewn yr Ardal Basn Afon ac felly wedi'i gysylltu'n hydrolegol.

Safle Dynodedig	Ardal Afon	Basn	Cysylltedd Hydrolegol	Nodweddion Cymhwysol	Pwysau Presennol	Amcanion Cadwraeth	Sgriniwyd i mewn/allan	Cyfiawnhad
						• Bydd yr holl ffactorau sydd yn effeithio ar lwyddiant yr amodau uchod, yn cynnwys ansawdd dŵr, lefelau dŵr a datblygiad prysg, yn cael eu rheoli. Amcan cadwraeth 9180 Fforestydd <i>Tillio-Acerion</i> Ewropeaidd o lethrau, sgrïau a cheunentydd: • Bydd coetir <i>Tillio-Acerion</i> yn meddiannu tua 44 hectar o ACA Cernydd Carmel. • Bydd coetir <i>Tillio-Acerion</i> yn meddiannu clytwaith o goedydd bach ac ardaloedd o laswelltir rhyngddynt, gan ffurfio elfen nodweddiadol o batrwm tirlun hanesyddol Cernydd Carmel. Bydd dosbarthiad y coed yn adlewyrchu y patrwm o goetir a fapiwyd yn 1994. • O fewn ardaloedd y fforest uchel, bydd y coetir yn cael ei gynnal cyn belled ag y bo modd drwy brosesau naturiol. • O fewn ardaloedd y fforest uchel, bydd rhwng 10 a 25% o'r coetir yn cynnwys llennyrch agored neu fylchau canopi, er y gall lleoliad y llennyrch/bylchau canopi amrywio dros amser. • Dylai coed a phrysg o ystod eang o oedrannau a meintiau fod yn bresennol, yn cynnwys coed canopi swyddogaethol aeddfed, coed ifanc a haen o brysg actif. • Bydd adfywio coed/prysg cynhenid lleol yn helaeth. • Bydd y canopi yn cynnwys cymysgedd amrywiol o rywogaethau cynhenid yn cynnwys onnen <i>Fraxinus excelsior</i>, derwen <i>Quercus spp.</i>, helygen ddeilgron <i>Salix caprea</i>, ywen <i>Taxus baccata</i> a llwyfen lydanddail <i>Ulmus gabra</i>. Bydd rhywogaethau haen prysg yn cynnwys collen <i>Corylus avellana</i>, draenen wen <i>Crateagus monogyna</i>, draenen ddu <i>Prunus spinosa</i>, piswydden <i>Euonymus europaeus</i> a chwyrosyn <i>Rhamnus catharticus</i>. Bydd rhywogaethau estron yn cynnwys y fasarnen <i>Acer pseudoplatanus</i> a'r ffawydden <i>Fagus sylvatica</i> yn absennol ar y cyfan. • Bydd yr haen maes yn cynnwys cymysgedd gyfoethog o berlysiau coetir yn cynnwys <i>Ranunculus ficaria</i>, <i>Ciracea lutetiana</i>, <i>Galium odoratum</i>, <i>Allium ursinum</i>, <i>Hyacinthoides non-scripta</i>, <i>Mercurialis perennis</i>, <i>Conopodium majus</i>, <i>Paris quadrifolia</i>, <i>Lamium galeobdolon</i>, <i>Conopodium majus</i>, <i>Phyllitis scolopendrium</i>, <i>Arum maculatum</i> ac <i>Anemone nemorosa</i>. • Bydd rhywogaethau anghyffredin yn lleol gan gynnwys <i>Rhamus catharticus</i>, <i>Euonymus europaeus</i>, <i>Convallaria majalis</i>, <i>Paris quadrifolia</i> a <i>Daphne mezereum</i> yn parhau i fod yn bresennol. • Bydd mieri dwys yn absennol ar y cyfan. • Yn ardaloedd y goedwig uchel, bydd coed marw yn bresennol ar ffurf boncyffion/canghennau sydd yn sefyll neu wedi cwympo. • Mae'r holl ffactorau sydd yn effeithio ar lwyddiant yr amodau uchod, yn cynnwys pori a blaenbori, yn cael eu rheoli.		

Safle Dynodedig	Ardal Afon	Basn	Cysylltedd Hydrolegol	Nodweddion Cymhwysol	Pwysau Presennol	Amcanion Cadwraeth	Sgriniwyd i mewn/allan	Cyfiawnhad
						Amcan cadwraeth ar gyfer 4010 rhostiroedd gwlyb Gogledd yr Iwerydd Ewropeaidd gydag <i>Erica tetralix</i>: • bydd rhostir gwlyb Gogledd yr Iwerydd yn meddiannu o leiaf 6 hectar o ACA Cernydd Carmel • Bydd gan y rhostir gwlyb orchudd uchel (>25%) o gorlwyni, yn cynnwys grug <i>Calluna vulgaris</i>, grug croesddail <i>Erica tetralix</i> a llys <i>Vaccinium myrtillius</i>. • Bydd tyfiant cysylltiedig yn cynnwys eithin gorllewinol <i>Ulex gallii</i> a <i>Molinia caereulea</i>, ond dim gorchudd uchel. • Bydd migwyn <i>Sphagnum</i> spp. yn amlwg yn y dywarchen. • Bydd prysg a rhedyn yn absennol ar y cyfan. • Mae’r holl ffactorau sydd yn effeithio ar lwyddiant yr amodau hyn, yn cynnwys pori a thresbasiad prysg/rhedyn, yn cael eu rheoli. Amcan cadwraeth ar gyfer 7110 Cyforgorsydd byw Ewropeaidd: • Bydd cyforgorsydd byw yn gorchuddio o leiaf 13 hectar o ACA Cernydd Carmel. • Bydd o leiaf pum uned o fawndir cyforgors yn bresennol, yn meddiannu cyfres o bantiau mawnog o fewn y gefnen grut melinfaen. • Bydd y llaid yn cefnogi fflora cors arbenigol yn cynnwys grug <i>Calluna vulgaris</i>, grug croesddail <i>Erica tetralix</i>, clwbfrwynen y mawn <i>Scirpus cespitosus</i>, plu'r gweunydd unben <i>Eriophorum vaginatum</i>, plu'r gweunydd <i>E.angustifolium</i>, llafn y bladur <i>Narthecium assifragum</i> a gwlithlys <i>Drosera rotundifolia</i>. • Bydd migwyn <i>Sphagnum spp</i> yn helaeth, tra bydd glaswellt y gweunydd <i>Molinia caerulea</i> a mathau arall a laswellt yn brin. • Bydd wyneb y llaid yn arddangos topograffeg o dwmpathau a cheudodau, gyda lawntiau o fwsogl <i>Sphagnum</i> yn meddiannu’r ceudodau gwlyb. • Bydd prysg a rhedyn yn absennol ar y cyfan. • Bydd yr holl ffactorau sydd yn effeithio ar lwyddiant yr amodau hyn, yn cynnwys lefelau dŵr a maetholion, a phori yn cael eu rheoli.		
ACA Cwm Doethie – Mynydd Mallaen	Tywi Uchaf	Oes	Cynefinoedd Atodiad I sy'n brif reswm dros ddewis y safle hwn: • 91A0 Hen goedwigoedd o goed derw digoes gydag Ilex a Blechnum yn Ynysoedd Prydain • Mae Cwm Doethie – Mynydd Mallaen yn cynnwys ardal fawr o hen goedwig derw digoes ar hyd cyfres o gymoedd rhyng-gysylltiedig. Mae'r safle yn un o sawl enghraifft sy'n cynrychioli'r cynefin hwn yng nghraidd ei diriogaeth yng Nghymru.	• Pori (Risg uchel, A04) • Rheoli Fforestydd a Phlanhigfeydd (Risg uchel, B02) • Cysylltiadau blodeuol rhyngrywogaethol (Risg isel K04) • Rhywogaethau brodorol problemus (Risg ganolig I02) • Llygredd aer, llygryddion a gludir gan aer (Risg uchel H04) • Plannu fforestydd ar dir agored (Risg isel B01)	Amcan Cadwraeth 4030 Rhostiroedd sych Ewropeaidd: • Mae ehangder, ansawdd ac amrywiaeth llystyfiant y rhostir yn y safleoedd cydrannol yn cael eu cynnal, a phan fo' bosibl mae rhostir sydd wedi diraddio yn cael ei adfer i gyflwr da. • Mae gan y prif ardaloedd rhostir strwythur oedran amrywiol a chlytwaith o ros ifanc, rhos aeddfed a rhos wedi diraddio. • Mae llethrau heulog mewn rhai ardaloedd penodol yn cefnogi llystyfiant sydd yn cynnwys grug y mêl a'r eithinen fân, ac mae gan lethrau sydd yn wynebu'r de amrywiaeth eang o fwsogl a llywiau'r afu o dan y canopi o gorlwyni, yn cynnwys migwyn mewn rhai ardaloedd.	Sgriniwyd i Mewn.	Wedi'i leoli o fewn yr Ardal Basn Afon ac felly wedi'i gysylltu'n hydrolegol.	

Safle Dynodedig	Ardal Afon	Basn	Cysylltedd Hydrolegol	Nodweddion Cymhwysol	Pwysau Presennol	Amcanion Cadwraeth	Sgriniwyd i mewn/allan	Cyfiawnhad
				Coetir derw digoes <i>Quercus petraea</i> sydd yno'n bennaf, gyda fflora tir asidig nodweddiadol ac elfen gyfoethog o is-blanhigion. Mae'r safle hefyd yn nodedig am ei rostir uchel a'i gymunedau glaswelltir, ac am ei gasgliadau adar bridio, sy'n cynnwys barcud coch (<i>Milvus milvus</i>). Cynefinoedd Atodiad I yn bresennol fel nodwedd gymhwysol, ond heb fod yn brif reswm dros ddewis y safle hwn: 4030 Rhostiroedd sych Ewropeaidd	Gweithgareddau chwaraeon a hamdden awyr agored, gweithgareddau hamdden (Risg ganolog G01)	- Mae niferoedd planhigion anghyffredin, megis y caineirian bach, yn sefydlog neu'n cynyddu. - Mae'r ardaloedd rhostir mwyaf yn darparu cynefin addas ar gyfer adar sy'n bridio, yn cynnwys y grugiar a'r cudyll bach. - Mae'r holl ffactorau sydd yn effeithio ar lwyddiant yr amodau hyn yn cael eu rheoli. Amcan Cadwraeth ar gyfer 91A0 Hen goedwigoedd o goed derw digoes gydag Ilex a Blechnum yn Ynysoedd Prydain: Mae hen goetiroedd derw digoes yn parhau i fod yn nodwedd sylweddol ac amlwg o ochrau dyffrynnoedd yr ucheldir o fewn ardal y cynllun. - Mae'r ffin rhwng y coetir a'r cynefin uwchdir ffiniol yn aml yn un hyblyg ble mae coed yn atgynhyrchu ar dir agored. Mewn nifer o leoliadau mae coetir derw yn ffurfio lleiniau mewn ardaloedd ffridd ble ceir llai o bwysau pori ar wreiddiau'r uwchdir. - Mae gan y coetir derw amrywiaeth o wahanol strwythurau ac mae ei gymeriad yn amrywio o le i le, o hen ardaloedd canopi caeedig i borfeydd coediog agored yn bennaf. - Y coed mwyaf mynych yw'r dderwen mes digoes, ond mewn mannau mae'r fedwen yn amlycach. Mae coed criafol a choed eraill i'w gweld fel cydran fechan, ac ar odre'r llethrau ble mae coetir derw yn graddol newid i fod yn goetir gwlyb, ceir rhai coed gwern a helyg. Bydd coed estron megis ffawydd a'r fasarnen yn bresennol, ond dim ond mewn niferoedd bychan ac maent yn gyffredinol brin. - Mae prysgwydd isdyfiant yn gyffredinol yn eithaf prin, ond gellir canfod grwpiau gwasgaredig o gollen neu gelynnen mwn rhai coedydd. - Mae'r gorchudd tir yn amrywio'n eang. Bydd rhannau wedi eu gorchuddio â rhedyn, eraill yn welltog, ac mae gan eraill ystod ehangach o blanhigion blodeuog a rhedyn, ac yn aml maent wedi eu gorchuddio â bwtsiasen y gog yn y gwanwyn. Ar briddoedd tenau mewn sefyllfaoedd gwlithog cysgodol mae yna garpedi moethus o fwsogl a llysiau'r afu, gyda neu heb brysgwydd isdyfiant megis grug a llys. - Mae'r coed mwyaf yn cefnogi amrywiaeth o gen ar eu boncyffion a'u canghennau. - Ym mhob bloc o goetir, mae coed ynn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau oedd yn bresennol, ac mae hen goes yn amlwg mewn rhai ardaloedd, yn arbennig ble ceir porfeydd coediog. - Ym mhob ardal ar wahân i borfeydd coediog, mae yna dystiolaeth o atgynhyrchu gwirioneddol ar ffurf eginblanhigion a glasbrennau neu botensial ar gyfer atgynhyrchu, ac mewn rhai ardaloedd o borfeydd		

Safle Dynodedig	Ardal Afon	Basn	Cysylltedd Hydrolegol	Nodweddion Cymhwysol	Pwysau Presennol	Amcanion Cadwraeth	Sgriniwyd i mewn/allan	Cyfiawnhad
						coediog gall plannu a gwarchod coed ifanc, yn arbennig derw, fod yn briodol. • Mae coed marw wedi eu gwasgaru’n dda ac weithiau yn helaeth, yn gorwedd ar lawr y coetir ac fel coed marw ar eu traed neu ganghennau coed. • Mae gan y rhan fwyaf o’r coetir dewr ganopi caeedig, ond mae yna rai llennyrch ac ardaloedd llawer mwy sydd yn borfeydd coediog i bob pwrpas. Dylai’r amodau yma fod yn sympathetig i boblogaethau pwysig o fwsogl a llysiau’r afu ar y naill law a chen ar y llaw arall. • Mae’r coed derw yn cefnogi crynodiad nodweddiadol o adar, megis telor y coed, gwybedog brith a’r tingoch. • Gall patrwm a dosbarthiad coetir sydd wedi neu heb ei bori newid gydag amser wrth i wahanol anghenion cadwraeth godi. • Mae’r holl ffactorau sydd yn effeithio ar lwyddiant yr amodau hyn yn cael eu rheoli.		
AGA Elenydd Mallaen	Tywi Uchaf		Oes	• Barcud coch sy’n bridio (<i>Milvus milvus</i>) • Cudyll bach sy’n bridio (<i>Falco columbaris</i>) • Hebogiaid tramor sy’n bridio (<i>Falco peregrinus</i>)	• Gweithgareddau chwaraeon a hamdden awyr agored, gweithgareddau hamdden (Risg isel G01) • Defnydd ynni anfiotig adnewyddadwy (Risg ganolig C03) • Rhywogaethau brodorol problemus (Risg isel I02) • Tân ac atal tân (Risg ganolig J01) • Newidiadau mewn amodau anfiotig (Risg isel M01) • Hela a chasglu anifeiliaid gwyllt, gan gynnwys difrod a achosir gan helwriaeth, a chymryd/symud anifeiliaid daearol (gan gynnwys casglu pryfed, ymlusgiaid, amffibiaid, adar ysglyfaethus, ac ati, trapio, gwenwyno, potsio, rheoli ysglyfaethwyr, dal damweiniol (Risg ganolig F03) • Rheoli a defnyddio Fforestydd a Phlanhigfeydd (Risg ganolig B02) • Pori (Risg ganolig A04)	Amcan cadwraeth 7130 Gorgorsydd Ewropeaidd: • Mae ehangder, ansawdd ac amrywiaeth llystyfiant y gorgorsydd yn y safleoedd cydrannol yn cael eu cynnal, a phan fo’n bosibl mae cors sydd wedi diraddio yn cael ei hadfer i gyflwr da. • Mae poblogaethau planhigion cors anghyffredin, megis yr hesgen dal, yr hesgen fain, migwyn Magelanig a mwsogl coler ffrwyth crwn, yn sefydlog neu'n cynyddu. • Mae'r corsydd yn parhau i ddarparu cynefin addas ar gyfer adar sy'n bridio, gan gynnwys cwtiad aur, Pibydd y Mawn a grugieir, ac infertebratau, megis gweirlöyn mawr y waun. • Mae proffiliau mawn sy'n cynnwys cofnodion pail pwysig yn cael eu cynnal. • Mae’r holl ffactorau sydd yn effeithio ar lwyddiant yr amodau hyn yn cael eu rheoli. Amcan Cadwraeth 4030 Rhostiroedd sych Ewropeaidd: • Mae ehangder, ansawdd ac amrywiaeth llystyfiant y rhostir yn y safleoedd cydrannol yn cael eu cynnal, a phan fo’ bosibl mae rhostir sydd wedi diraddio yn cael ei adfer i gyflwr da. • Mae gan y prif ardaloedd rhostir strwythur oedran amrywiol a chlytwaith o ros ifanc, rhos aeddfed a rhos wedi diraddio. • Mae llethrau heulog mewn rhai ardaloedd penodol yn cefnogi llystyfiant sydd yn cynnwys grug y mêl a’r eithinen fân, ac mae gan lethrau sydd yn wynebu’r de amrywiaeth eang o fwsogl a llywiau’r afu o dan y canopi o gorlwyni, yn cynnwys migwyn mewn rhai ardaloedd. • Mae niferoedd planhigion anghyffredin, megis y caineirian bach, yn sefydlog neu'n cynyddu.	Sgriniwyd i Mewn.	Wedi'i leoli o fewn yr Ardal Basn Afon ac felly wedi'i gysylltu'n hydrolegol.

Safle Dynodedig	Ardal Afon	Basn	Cysylltedd Hydrolegol	Nodweddion Cymhwysol	Pwysau Presennol	Amcanion Cadwraeth	Sgriniwyd i mewn/allan	Cyfiawnhad
						- Mae'r ardal rostir fwyaf yn darparu cynefin addas ar gyfer adar sy'n bridio, yn cynnwys y grugiar a'r cudyll bach. - Mae'r holl ffactorau sydd yn effeithio ar lwyddiant yr amodau hyn yn cael eu rheoli. Amcan cadwraeth: 91A0 Hen goedwigoedd o goed derw digoes gydag Ilex a Blechnum yn Ynysoedd Prydain: - Mae hen goetiroedd derw digoes yn parhau i fod yn nodwedd sylweddol ac amlwg o ochrau dyffrynnoedd yr ucheldir o fewn ardal y cynllun. Mae'r rheiny yng nghymoedd Elan a Claerwen ac ardal Rhaeadr, ardal Dinas a Gwenffrwd yn nyffryn Tywi uchaf a dyffryn Cothi i'r gogledd o Fynydd Mallaen wedi eu datblygu'n arbennig o dda neu'n helaeth. - Mae'r ffin rhwng y coetir a'r cynefin uwchdir ffiniol yn aml yn un hyblyg ble mae coed yn atgynhyrchu ar dir agored. Mewn nifer o leoliadau mae coetir derw yn ffurfio lleiniau mewn ardaloedd ffridd ble ceir llai o bwysau pori ar wreiddiau'r uwchdir. - Mae gan y coetir derw amrywiaeth o wahanol strwythurau ac mae ei gymeriad yn amrywio o le i le, o hen ardaloedd canopi caeedig i borfeydd coediog agored yn bennaf. - Y coed mwyaf mynych yw'r dderwen mes di-goes, ond mewn mannau mae'r fedwen yn amlycach. Mae coed crafol a choed eraill i'w gweld fel cydran fechan, ac ar odre'r llethrau ble mae coetir derw yn graddol newid i fod yn goetir gwlyb, ceir rhai coed gwern a helyg. Bydd coed estron megis ffawydd a'r fasarnen yn bresennol, ond dim ond mewn niferoedd bychan ac maent yn gyffredinol brin. - Mae prysgwydd isdyfiant yn gyffredinol yn eithaf prin, ond gellir canfod grwpiau gwasgaredig o gollen neu gelynnen mwn rhai coedydd. - Mae'r gorchudd tir yn amrywio'n eang. Bydd rhannau wedi eu gorchuddio â rhedyn, eraill yn welltog, ac mae gan eraill ystod ehangach o blanhigion blodeuog a rhedyn, ac yn aml maent wedi eu gorchuddio â bwtsiasen y gog yn y gwanwyn. Ar briddoedd tenau mewn sefyllfaoedd gwlithog cysgodol mae yna garpedi moethus o fwsogl a llysiau'r afu, gyda neu heb brysgwydd isdyfiant megis grug a llys. - Mae'r coed mwyaf yn cefnogi amrywiaeth o gen ar eu boncyffion a'u canghennau. - Ym mhob bloc o goetir, mae coed ynn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau oedd yn bresennol, ac mae hen goes yn amlwg mewn rhai ardaloedd, yn arbennig ble ceir porfeydd coediog. - Ym mhob ardal ar wahân i borfeydd coediog, mae yna dystiolaeth o atgynhyrchu gwirioneddol ar ffurf eginblanhigion a glasbrennau neu botensial ar gyfer atgynhyrchu, ac mewn ardaloedd o borfeydd coediog gall plannu a gwarchod coed ifanc, yn arbennig derw, fod yn briodol.		

Safle Dynodedig	Ardal Afon	Basn	Cysylltedd Hydrolegol	Nodweddion Cymhwysol	Pwysau Presennol	Amcanion Cadwraeth	Sgriniwyd i mewn/allan	Cyfiawnhad
						- Mae coed marw wedi eu gwasgaru'n dda ac weithiau yn helaeth, yn gorwedd ar lawr y coetir ac fel coed marw ar eu traed neu ganghennau coed. - Mae gan y rhan fwyaf o'r coetir dewr ganopi caeedig, ond mae yna rai llennyrch ac ardaloedd llawer mwy sydd yn borfeydd coediog i bob pwrpas. Dylai'r amodau yma fod yn sympathetig i boblogaethau pwysig o fwsogl a llysiau'r afu ar y naill law a chen ar y llaw arall. - Mae'r coed derw yn cefnogi crynodiad nodweddiadol o adar, megis telor y coed, gwybedog brith a'r tingoch. - Gall patrwm a dosbarthiad coetir sy'n cael ei bori ac nad yw'n cael ei bori newid dros amser. - Mae'r holl ffactorau sydd yn effeithio ar lwyddiant yr amodau hyn yn cael eu rheoli. Amcan cadwraeth 9180 Fforestydd <i>Tillio-Acerion</i> Ewropeaidd o lethrau, sgriau a cheunentydd: - Mae coed ynn yn amlwg ar rai o'r brigiadau creigiog llai asidig o fewn y coetiroedd derw. - Mae rhai coed marw yn bresennol, ac mae hyn yn darparu cynefin pwysig ar gyfer fflora a ffawna'r coetir. - Nid yw planhigion sy'n nodi aflonyddwch a chyfoethogi maetholion, megis clytiau mawr o ddanadl a meillion, yn gyffredin ac nid oes ardaloedd helaeth o dir moel o fewn y coetir. - Mae coed a llwyni anfrodorol, megis sycamorwydden a chonwydd, yn absennol. - Mae'r holl ffactorau sydd yn effeithio ar lwyddiant yr amodau hyn yn cael eu rheoli. Amcan cadwraeth 6130 glaswelltiroedd Calaminaraidd <i>Violetalia calaminariae</i>: - Mae'r cynefin yn gorchuddio o leiaf ei arwynebedd mesuredig presennol. - Mae cennau yn meddiannu blociau mawr o wastraff llawn metel o weithfeydd mwyngloddio, tomennydd, waliau a strwythurau adeiledig eraill. - Mae cennau, mwsoglau, rhedyn ac ambell blanhigyn uwch megis Gludlys Arfor yn bresennol ar frigiadau creigiog mewn clogwyni, hafnau agored ac o amgylch mynedfeydd i siafftau a cheuffyrrdd. - Ar dir agored, gwastad fel arfer, gwelir cymunedau planhigion a gynrychiolir gan y genws mwsogl <i>Wessia</i> ac ystod o gennau metallophyte cramennog. Mae'r mwsogl <i>Ditrichum plumbicola</i> a Gludlys Arfor i'w gweld yn yr ardaloedd mwyaf tra-fasig, fel arfer yn gysylltiedig â mortar calch gwasgaredig o adeiladau cyfagos. - Mae rhostir, prysgwydd, coed neu rywogaethau coediog eraill yn brin neu'n absennol.		

Safle Dynodedig	Ardal Afon	Basn	Cysylltedd Hydrolegol	Nodweddion Cymhwysol	Pwysau Presennol	Amcanion Cadwraeth	Sgriniwyd i mewn/allan	Cyfiawnhad
						- Mae pori ysgafn yn atal twf perlysiau tal, prysgwydd a choetiroedd. Mae lefelau pori yn cael eu rheoli'n ofalus i osgoi lefelau annymunol o aflonyddwch ar y ddaear. - Mae ardaloedd o dir moel wedi ei aflonyddu yn meddiannu llai na 10% o ardaloedd posibl y gallai'r cynefin hwn eu meddiannu. - Mae llai na 1% o orchudd planhigion anfrodorol. - Nid oes unrhyw ddeunydd sydd newydd ei ollwng. - Mae'r cynefin yn lledaenu'n raddol ar draws y safle helaeth hwn lle bynnag y mae'r amodau addas yn bodoli. - Mae'r holl ffactorau sydd yn effeithio ar lwyddiant yr amodau hyn yn cael eu rheoli. Amcan cadwraeth 3130 Dyfroedd llonydd oligotroffig i fesotroffig <i>Isoeto-Nanojunceta</i>: - Mae ardal y cynllun yn cynnwys nifer o llynnoedd ucheldir gyda dŵr ychydig yn asidig, heb lawer o faetholion, a gwelyau gweddol garegog. Ymhlith y planhigion dŵr a geir yma mae Beistonnell Ferllyn, Lobelia'r Dŵr, Myrdd-ddail blodau bob yn ail, Gwair Merllyn, Brwynen Oddfog, Cledd-lys Arnofiol, Dyfrllys Llydanddail, Llinesg y Dŵr Canolradd a Mwsogl Dŵr. - Mae llystyfiant llyn oligotroffig sydd wedi'i ddatblygu'n llawn i'w gael ym mhob un o'r llynnoedd, gan gynnwys yr holl rywogaethau cydran sy'n nodweddiadol o'r nodwedd ACA, fel y'u cynrychiolir yn ACA Elenydd. - Ar gyfer pob un o'r llynnoedd, lle mae'n digwydd, mae maint a chyfansoddiad rhywogaethau'r llystyfiant llyn oligotroffig yn sefydlog neu'n cynyddu o ran ystod a/neu amrywiaeth. - Mae Rhawn yr Ebol prin <i>Nitella gracillis</i>, Gwybybyr Chwebrigerog a Mynawydlys Dyfrdrig i'w cael yn Llyn Glynon. Mae Gwybybyr Chwebrigerog hefyd i'w weld yn tyfu mewn dŵr bas ar wely caregog Cronfa Ddŵr Dolymynach. - Mae poblogaethau'r planhigion dŵr hyn i gyd yn sefydlog neu'n cynyddu ac mae ansawdd dŵr y llynnoedd yn parhau i fod yn addas ar gyfer eu goroesiad yn y tymor hir. - Bydd planhigion sy'n dynodi cyflwr anffafriol ar gyfer y nodwedd hon e.e. algâu ffilamentaidd sy'n gysylltiedig ag ewtroffigedd a rhywogaethau estron goresgynnol yn absennol neu'n cael eu cynnal neu eu hadfer isod ac ar lefel trothwy derbyniol. - Ac eithrio Cronfa Ddŵr Dolymynach, bydd prosesau a ffurflenni hydrolegol a geomorffolegol naturiol yn gweithredu yn y llynnoedd e.e. lefelau dŵr, dyfnder dŵr, sefydlogrwydd swbstrad gwely, heb unrhyw reoleiddio artiffisial o lefelau dŵr na chyfundrefnau gwaddodion wedi'u newid. - Mae lefelau maetholion isel a chysgod yn cael eu cynnal.		

Safle Dynodedig	Ardal Afon	Basn	Cysylltedd Hydrolegol	Nodweddion Cymhwysol	Pwysau Presennol	Amcanion Cadwraeth	Sgriniwyd i mewn/allan	Cyfiawnhad
						- Mae'r holl ffactorau sydd yn effeithio ar lwyddiant yr amodau hyn yn cael eu rheoli. Amcan cadwraeth 1831: Llyriad-y-dŵr arnofiol <i>Luronium natans</i>: - Mae poblogaethau llyriad-y-dŵr arnofiol yn hyfyw drwy gydol eu dosbarthiad presennol yn ardal y cynllun. - Bydd pob poblogaeth o lyriad-y-dŵr arnofiol yn gallu atgenghedlu'n rhywiol a/neu yn llystyfiannol yn llwyddiannus. - Mae'n rhaid i botensial am gyfnewidiad genetig rhwng poblogaethau llyriad-y-dŵr arnofiol, yn a/neu y tu allan i ardal y cynllun. - Bydd prosesau a ffurfiau hydrolegol a geomorffolegol sydd bron yn naturiol yn gweithredu yn y 4 llyn. - Bydd lefelau maetholion isel a chysgod yn cael eu cynnal, heb unrhyw rywogaeth yn bresennol sy'n arwydd o amodau anffafriol. - Bydd gwasgariad llyriad-y-dŵr arnofiol yn ddirwystyr. - Ni fydd rhywogaethau goresgynnol anfrodorol yn bresennol. - Mae'r holl ffactorau sydd yn effeithio ar lwyddiant yr amodau uchod yn cael eu rheoli. Amcan cadwraeth A074 Barcud Coch sy'n bridio <i>Milvus milvus</i>: - Mae ardal yr AGA yn parhau i gefnogi o leiaf 15 pâr o farcutiaid sy'n bridio, neu 0.5% o'r boblogaeth ym Mhrydain. - Mae safleoedd nythod traddodiadol yn yr AGA yn parhau i gael eu defnyddio. - Mae maint y cynefin bwydo lled naturiol addas yn yr AGA yn cael ei gynnal. - Mae argaeledd burgynaid yn yr AGA yn cael ei gynnal. - Mae safleoedd clwydo yn yr AGA yn cael eu cynnal. - Mae'r holl ffactorau sydd yn effeithio ar lwyddiant yr amodau hyn yn cael eu rheoli. Amcan cadwraeth A098 Cudyll bach sy'n Bridio <i>Falco columbaris</i>: - Mae ardal yr AGA yn parhau i gefnogi o leiaf 7 pâr o gudylliaid bach sy'n bridio, neu 0.5% o'r boblogaeth ym Mhrydain. - Mae safleoedd nythod traddodiadol yn yr AGA yn parhau i gael eu defnyddio. - Mae maint y cynefin bwydo lled naturiol addas yn yr AGA yn cael ei gynnal. - Mae'r holl ffactorau sydd yn effeithio ar lwyddiant yr amodau hyn yn cael eu rheoli. Amcan cadwraeth A103: Hebogiaid tramor sy'n bridio <i>Falco peregrinus</i>:		

Safle Dynodedig	Ardal Basn Afon	Cysylltedd Hydrolegol	Nodweddion Cymhwysol	Pwysau Presennol	Amcanion Cadwraeth	Sgriniwyd i mewn/allan	Cyfiawnhad
					- Mae ardal yr AGA yn parhau i gefnogi o leiaf 15 pâr o hebogiaid tramor sy'n bridio, neu 0.5% o'r boblogaeth ym Mhrydain. - Mae safleoedd nythod traddodiadol yn yr AGA yn parhau i gael eu defnyddio. - Mae maint y cynefin bwydo lled naturiol addas yn yr AGA yn cael ei gynnal. - Mae'r holl ffactorau sydd yn effeithio ar lwyddiant yr amodau hyn yn cael eu rheoli.		
ACA Gweunydd Blaencleddau	2.1km o Ardal Basn Afon Cymoedd y Gorllewin	Nac oes	Cynefinoedd Atodiad I yn bresennol fel nodwedd gymhwysol, ond heb fod yn brif reswm dros ddewis y safle hwn: 4010 Rhostiroedd Gwlyb Gogledd yr lwerydd gydag Erica <i>tetralix</i> 6410 Dolydd Molinia ar briddoedd calchaid, mawnog neu gleiog-llawn-silt (Molinion <i>caeruleae</i>) 7130 Gorgorsydd (* os daw cors fyw yn brif nodwedd) *Nodwedd flaenoriaeth 7140 Mignenni pontio a chorsydd crynedig 7230 Ffeniau alcalïaidd Rhywogaethau Atodiad II sy'n brif reswm dros ddewis y safle hwn: 1065 Britheg y Gors (<i>Euphydryas (Eurodryas, Hypodryas) aurinia</i>) Rhywogaethau Atodiad II sy'n bresennol fel nodwedd gymhwysol, ond heb fod yn brif reswm dros ddewis y safle: 1044 Mursen y De <i>Coenagrion mercurial</i>	- Rhywogaethau estron goresgynnol (Risg ganolig I01) - Torri glaswelltir (Risg uchel A03) - Esblygiad biocenotig, olyniaeth (Risg ganolig K02) - Llygredd i ddyfroedd wyneb (llynol a thirol, morol a halltog) (Risg ganolig H01) - Llygredd aer – llygryddion a gludir gan aer (Risg uchel H04) - Newidiadau a achosir gan bobl mewn amodau hydrolog (Risg ganolig J02) - Pori (Risg uchel A04)	Ar gyfer dolydd Molinia, rhostir gwlyb, gorgorsydd, mignenni pontio a chorsydd crynedig, ffen alcalïaidd, britheg cors, a Mursen y De, eu hamcan yw bod mewn statws cadwraeth ffafriol lle bodlonir yr holl amodau a amlinellir yn y cynllun rheoli. Mae hyn yn cynnwys: - Dolydd Molinia i ddigwydd mewn darnau bach o amgylch y safle, gyda glaswellt y gweunydd, hesg bach a thamaid y cythraul yn gyffredin ac absenoldeb rhywogaethau prysgwydd. - Er mwyn i rostir gwlyb feddiannu o leiaf 6% o'r ardal gyda rhywogaethau prysgwydd yn absennol i raddau helaeth. - Er mwyn i gorgorsydd feddiannu o leiaf 4% o'r ardal gyda rhywogaethau prysgwydd a rhedyn yn absennol i raddau helaeth. - Er mwyn i fignenni pontio a chorsydd crynedig feddiannu o leiaf 2% o'r ardal gyda rhywogaethau prysgwydd yn absennol i raddau helaeth. - Er mwyn i laciau gyda ffen alcalïaidd feddiannu o leiaf 10% o'r safle gyda rhywogaethau prysgwydd a rhedyn yn absennol i raddau helaeth. - Ar gyfer Britheg y Gors, byddai hyn yn cynnwys dwysedd o weoedd larfaol yn ystod samplu sydd o leiaf 200 yr hectar o gynefin mewn Cyflwr Da (gweler y Cynllun Rheoli ACA am ragor o fanylion). - Ar gyfer Mursen y De, byddai hyn yn cynnwys dwysedd o wrywod aeddfed yn ystod samplu sydd o leiaf 1 gwryw am bob 10 metr sgwâr o gynefin bridio.	Sgriniwyd allan.	O ystyried y pellter o Ardal yr LFRMS a thopograffeg leol, ni ystyrir bod yr ACA yn gysylltiedig ag Ardal yr LFRMS ac felly caiff ei sgrinio allan.
ACA Coedwigoedd Gogledd Sir Benfro	D/B	Nac oes	Cynefinoedd Atodiad I sy'n brif reswm dros ddewis y safle hwn: 91A0 Hen goedwigoedd o goed derw digoes gydag Ilex a Blechnum yn Ynysoedd Prydain Cynefinoedd Atodiad I yn bresennol fel nodwedd gymhwysol, ond heb fod yn brif reswm dros ddewis y safle hwn:	- Pori (Risg uchel A04) - Rheolaeth a Defnydd Fforestydd a Phlanhigfeydd (Risg uchel B02) - Cysylltiadau blodeuol rhyngrywogaethol (Risg ganolig K04) - Llygredd aer, llygryddion a gludir gan aer (Risg uchel H04)	Er mwyn i'r hen goed derw digoes fod mewn cyflwr ffafriol ac i gwmpasu'r rhan fwyaf o'r ACA. Er mwyn i o leiaf 2% o'r ACA fod wedi ei orchuddio gan goetir llifwaddodol ac i fod mewn statws cadwraeth ffafriol. Er mwyn i'r Ystlum Du fod mewn statws cadwraeth ffafriol gan gynnwys dim colled net o goetir lled-naturiol hynafol ar y safle.	Sgriniwyd allan.	O ystyried y pellter o Ardal yr LFRMS a thopograffeg leol, ni ystyrir bod ACA Coedwigoedd Gogledd Sir Benfro yn gysylltiedig ag Ardal yr LFRMS ac felly caiff ei sgrinio allan.

Safle Dynodedig	Ardal Afon	Basn	Cysylltedd Hydrolegol	Nodweddion Cymhwysol	Pwysau Presennol	Amcanion Cadwraeth	Sgriniwyd i mewn/allan	Cyfiawnhad
				91E0 Fforestydd llifwaddodol gydag <i>Alnus glutinosa</i> a <i>Fraxinus excelsior</i> (<i>Alno-Padion</i>, <i>Alnion incanae</i>, <i>Salicion albae</i>) * Nodwedd flaenoriaeth rhywogaethau Atodiad II sy'n brif reswm dros ddewis y safle hwn: 1308 Ystlum Du <i>Barbastella barbastellus</i>	- Rhywogaethau estron goresgynnol (Risg ganolig I01) - Esblygiad biocenotig, olyniaeth (Risg uchel K02)			
ACA Ardal Forol Sir Benfro	D/B		Nac oes	Cynefinoedd Atodiad I sy'n brif reswm dros ddewis y safle hwn: 1130 Aberoedd 1160 Cilfachau a baeau bas mawr 1170 Riffiau Rhywogaethau Atodiad II sy'n brif reswm dros ddewis y safle: 1364 Morlo llwyd 1441 Tafolen y twyni Cynefinoedd Atodiad I yn bresennol fel nodwedd gymhwysol, ond heb fod yn brif reswm dros ddewis y safle hwn: 1110 Banciau tywod sydd wedi'u gorchuddio i ryw raddau gan ddŵr môr bob amser. 1140 Fflatiau llaid a fflatiau tywod nad ydynt wedi eu gorchuddio â dŵr môr ar drai. 1150 Morlynnoedd arfordirol 1330 Dolydd heli'r lwerydd 8330 Ogofâu môr tanddwr neu rannol danddwr Rhywogaethau Atodiad II sy'n bresennol fel nodwedd gymhwysol, ond heb fod yn brif reswm dros ddewis y safle: 1095 Llysywen bendoll y môr <i>Petromyzon marinus</i> 1099 Llysywen bendoll yr afon <i>Lampetra fluviatillis</i> 1102 Herlyn <i>Alosa alosa</i> 1103 Gwangen <i>Alosa fallax</i> 1355 Dyfrgi <i>Lutra lutra</i>	- Newidiadau a achosir gan bobl mewn amodau hydrologig (Risg uchel J02) - Ymyriadau ac aflonyddwch dynol eraill (Risg ganolig G05) - Llygredd i ddyfroedd wyneb (llynol a thirol, morol a halltlog) (Risg uchel H01) (Risg ganolig K01) - Llygredd aer, llygryddion a gludir gan aer (Risg isel H04) - Archwilio ac echdynnu olew neu nwy (Risg ganolig C02) - Newidiadau mewn amodau anfiotig (Risg ganolig M01) - Lonydd llongau, porthladdoedd, adeiladau morol (Risg ganolig D03) - Hela, pysgota neu weithgareddau casglu (Risg uchel F06) - Rhywogaethau estron goresgynnol (Risg uchel I01) - Gweithgareddau chwaraeon a hamdden awyr agored, gweithgareddau hamdden (Risg ganolig G01) - Pysgota a chynaeafu adnoddau dyfrol (Risg uchel F02) - Llygredd dŵr morol (Risg ganolig H03)	- Mae dosbarthiad cyffredinol a maint y nodweddion cynefin ar y safle, a phob un o'r prif gydrannau yn sefydlog neu'n cynyddu. Yn achos nodwedd morlynnoedd arfordirol, mae hynny yn destun gofynion cynnal a chadw strwythur croniat artiffisial a chynnal a chadw'r morlynnoedd at y diben gwreiddiol neu'n ddiben dilynol oedd yn bodoli cyn dosbarthu'r safle. - Nid yw strwythur a swyddogaeth ffisegol, biolegol a chemegol sydd eu hangen ar gyfer cynnal hirdymor ac ansawdd y cynefin yn dirywio. Mae'r elfennau pwysig yn cynnwys daeareg, gwaddodeg, geomorffoleg, hydrograffeg a meteoroleg, cemeg dŵr a gwaddod a rhyngweithio biolegol. Mae hyn yn cynnwys yr angen i lefelau maetholion yn y golofn ddŵr a'r gwaddodion fod ar neu islaw crynodiadau canllaw statudol presennol ac, o fewn ystodau nad ydynt o bosibl yn niweidiol i gynnal y poblogaethau nodweddion rhywogaethau yn y tymor hir, eu digonedd a'u tiriogaeth. Rhaid i lefelau halogyddion yn y golofn ddŵr a'r gwaddodion sy'n deillio o weithgarwch dynol fod ar neu islaw crynodiadau canllaw statudol presennol, yn is na'r lefelau a fyddai'n arwain at gynydd mewn crynodiadau halogyddion o fewn gwaddodion neu biota neu lefelau is a allai fod yn niweidiol i gynnal y poblogaethau rhywogaethau nodwedd yn y tymor hir, eu digonedd neu eu tiriogaeth. - Byddai system ddyfrffordd Aberdaugleddau yn elwa o weithredu adferol. Mae angen adfer poblogaethau nifer o rywogaethau nodweddiadol system ddyfrffordd Aberdaugleddau sydd wedi gostwng yn ddifrifol mewn perthynas a lefelau hanesyddol oherwydd ecsbloetio gan ddyn. - Mae poblogaethau morlo llwyd, dyfrgi, herlyn, gwangen, llysywen bendoll yr afon, llysywen bendoll y môr a thafolen y twyni yn cynnal eu hunain yn y tymor hir fel elfen hyfyw o'u cynefin naturiol. Mae'r elfennau pwysig yn cynnwys: maint poblogaeth, strwythur, cynhyrchiant a chyflwr y rhywogaeth o fewn y safle. Ar gyfer y dyfrgi a'r morlo llwyd; mae beichiau halogion sy'n deillio o weithgaredd dynol yn is na lefelau a allai achosi niwed ffisiolegol, neu ataliad imiwnedd neu atgenhedlol. Ni ddylai poblogaethau gael eu lleihau oherwydd gweithgarwch dynol.	Sgriniwyd allan.	O ystyried y pellter o Ardal yr LFRMS a thopograffeg leol, ni ystyrir bod yr ACA yn gysylltiedig ag Ardal yr LFRMS ac felly caiff ei sgrinio allan.

Safle Dynodedig	Ardal Afon	Basn	Cysylltedd Hydrolegol	Nodweddion Cymhwysol	Pwysau Presennol	Amcanion Cadwraeth	Sgriniwyd i mewn/allan	Cyfiawnhad
						- Ni ddylid lleihau'r boblogaeth rhywogaethau o fewn y safle nawr nac yn y dyfodol o'r ystod naturiol. Ar gyfer y dyfrgi a'r morlo llwyd; ni ddylai eu tiriogaeth o fewn yr ACA ac ardaloedd rhyng-gysylltiedig cyfagos gael ei chyfyngu neu ei rhwystro; mae yna ffynonellau bwyd priodol a digonol yn yr ACA a thu hwnt; mae'r safleoedd a faint o gynefin ategol a ddefnyddir gan y rhywogaethau yma yn hygyrch ac mae eu helaethder a'u hansawdd yn sefydlog neu'n cynyddu. - Mae presenoldeb, digonedd, cyflwr ac amrywiaeth cynefinoedd a rhywogaethau sydd eu hangen i gefnogi'r rhywogaeth ar lefelau sy'n golygu bod dosbarthiad, digonedd a dymameg poblogaeth y rhywogaeth ar y safle a niferoedd y tu hwnt i'r safle yn sefydlog neu'n cynyddu. Mae angen i ddigonedd rhywogaethau ysglyfaeth sydd yn destun pysgodfeydd masnachol presennol fod ar lefel sydd yn hafal i neu'n fwy na'r hyn sydd yn ofynnol er mwyn cynhyrchu'r cnwd cynaliadwy mwyaf posibl a sicrwydd hirdymor. Mae'r ffordd o reoli gweithgareddau neu weithrediadau sydd yn debygol o effeithio'n niweidiol ar nodwedd rhywogaeth yn briodol ar gyfer ei chynnal mewn cyflwr ffafriol a bod hynny yn ddiogel yn yr hirdymor. Dylai halogiad rhywogaethau ysglyfaeth posibl fod yn is na chrynodiadau sydd o bosibl yn niweidiol i'w iechyd ffisiolegol. Mae aflonyddwch gan weithgarwch dynol yn is na lefelau sydd yn effeithio ar lwyddiant atgenhedlu, iechyd ffisiolegol neu ymddygiad hirdymor. Yn achos dyfrgwn mae yna ddigon o ffynonellau yn yr ACA a thu hwnt o ddŵr croyw o ansawdd uchel ar gyfer yfed ac ymolchi		
Ardal Cadwraeth Arbennig y Preseli	D/B		Nac oes	Cynefinoedd Atodiad I yn bresennol fel nodwedd gymhwysol, ond heb fod yn brif reswm dros ddewis y safle hwn: 4010 Rhostiroedd Gwlyb Gogledd yr Iwerydd gydag <i>Erica tetralix</i> 4030 Rhostiroedd sych Ewropeaidd 7150 Pantiau ar swbstradau mawn <i>Rhynchosporion</i> 7230 Ffeniau alcalïaidd Rhywogaethau Atodiad II sy'n brif reswm dros ddewis y safle: 1044 Mursen y De <i>Coenagrion mercuriale</i> 1065 Britheg y Gors (<i>Euphydryas (Eurodryas, Hypodryas) aurinia</i> 1393 Mwsogl <i>Drepanocladus (Hamatocaulis) vernicosus</i>	- Llygredd i ddŵr daear (Ffynonellau pwynt a ffynonellau gwasgaredig) (Risg ganolig H02) - Pori (Risg uchel A04) - Newidiadau a achosir gan bobl mewn amodau hydrologig (Risg uchel J02) - Esblygiad biocenotig, olyniaeth (Risg uchel K02) - Llygredd aer, llygryddion a gludir gan aer (Risg uchel H04) - Rhywogaethau estron goresgynnol (Risg isel I01)	Ar gyfer Mursen y De, Britheg y Gors, Mwsogl <i>Drepanocladus (Hamatocaulis) vernicosus</i>, ffeniau alcalïaidd, Pantiau ar swbstradau mawn <i>Rhynchosporion</i>, rhostiroedd sych Ewropeaidd a rhostiroedd gwlyb Gogledd yr Iwerydd, eu hamcan yw bod yn statws cadwraeth ffafriol lle bodlonir yr holl amodau a amlinellir yn y cynllun rheoli. Mae hyn yn cynnwys: - Ar gyfer Mursen y De bydd dwysedd gwrywod aeddfed yn ystod samplu yn o leiaf 1 gwryw am bob 10 metr sgwâr o gynefin bridio; Bydd yna o leiaf 3500 metr sgwâr o gynefin bridio; a bydd yr holl ffactorau sydd yn effeithio ar y nodwedd yn cael eu rheoli. - Ar gyfer Britheg y Gors bydd poblogaeth iach o fritheg y gors yn bresennol ar ac o gwmpas yr ACA. Bydd yna ddigon o gynefin addas mewn cyflwr da er mwyn cefnogi metaboblogaethau hyfyw o'r glöyn sydd yn ddibynnol ar laswelltir corsïog a thyfiannau, gyda thwmpathau o laswellt y gweunydd a digon o brif blanhigyn bwyd	Sgriniwyd allan.	I fyny'r afon o Afonydd Cleddau. O ystyried y pellter o Ardal yr LFRMS a thopograffeg leol, ni ystyrir bod yr ACA yn gysylltiedig ag Ardal yr LFRMS ac felly caiff ei sgrinio allan.

Safle Dynodedig	Ardal Afon	Basn	Cysylltedd Hydrolegol	Nodweddion Cymhwysol	Pwysau Presennol	Amcanion Cadwraeth	Sgriniwyd i mewn/allan	Cyfiawnhad
						y lindys, tamaid y diafol. Bydd y tyweirch yn amrywio mewn uchder fel bod yna ardaloedd ‘lawnt’ byr i'r lindys gael mynd i'r haul, ac ardaloedd twmpathog talach er mwyn darparu cysgod. - Ar gyfer Mwsogl Drepanocladus (Hamatocaulis) vernicosus, penderfynwyd trin y nodwedd fel rhan o nodwedd SoDdGA mwsoglau prin ar dir llaith. - Er mwyn i degeirian alcalïaidd fod yn bresennol mewn lleiniau ar draws y safle ac arddangos ystod o rywogaethau planhigion a phryfed sydd yn nodweddiadol o'r cynefin, yn cynnwys Mursen y De. Bydd y tyfiannau fyd yn cefnogi'r cynefin penodol yma yn cynnwys llystyfiant byr, agored sydd yn llawn mwsoglau bach, hesg a phlanhigion sydd yn nodweddiadol o amodau llai asidig. - Er mwyn i bantiau ar swbstradau mawn <i>Rhynchosporion</i> gael llystyfiant agored a chael digonedd o rywogaethau megis y gorsfrwynen wen <i>Rhynchospora alba</i>, migwyn <i>Sphagnum auriculatum</i>, cnwp-fwsogl y gors <i>Lycopodiella inundata</i> a gwlithlys <i>Drosera rotundifolia</i>; Bydd pantiau ar swbstradau mawn <i>Rhynchosporion</i> yn meddiannu tua 1-2% o'r ACA, a bydd yn bresennol yn o leiaf dwy uned a reolir (unedau 2 a 3 ar hyn o bryd); Bydd y llystyfiant yn yr ardaloedd yma yn agored iawn fel arfer a byddir yn cadw llygaid ar rywogaethau cystadleuol sydd yn arwydd o dan-bori, yn arbennig glaswellt y gweunydd <i>Molinia caerulea</i>; a bydd rhywogaethau prysg megis yr Helygen <i>Salix</i> a'r Fedwen <i>Betula</i> hefyd yn absennol i raddau helaeth. - Ar gyfer rhostir sych bydd yn gorchuddio o leiaf 11% o SoDdGA Mynydd Preseli ac yn arddangos ystod o rywogaethau planhigion, pryfed ac adar sydd yn nodweddiadol o'r cynefin; Bydd y planhigion canlynol yn gyffredin mewn rhos sych: grug <i>Calluna vulgaris</i>; grug y mêl <i>Erica cinerea</i> a'r eithinen fân <i>Ulex gallii</i>; Byddir yn cadw llygaid ar rywogaethau cystadleuol sydd yn arwydd o dan-bori, yn arbennig rhedyn <i>Pteridium aquilinum</i> a glaswellt y gweunydd <i>Molinia caerulea</i> a'r eithinen fân <i>Ulex gallii</i>. - Er mwyn i rostir gwlyb orchuddio o leiaf 11% o'r safle ac arddangos ystod o rywogaethau planhigion sydd yn nodweddiadol o'r cynefin. Bydd gan y rhan fwyaf o ros gwlyb gymysgedd o dwmpathau a laswellt y gweunydd, wedi eu gwahanu gan leiniau wedi eu pori'n agos sydd yn llawn clwbfrwynen y mawn, migwyn a grug megis		

Safle Dynodedig	Ardal Afon	Basn	Cysylltedd Hydrolegol	Nodweddion Cymhwysol	Pwysau Presennol	Amcanion Cadwraeth	Sgriniwyd i mewn/allan	Cyfiawnhad
						grug croesddail. Hefyd dylai cyfran gael ystod o hesg byr a phlanhigion sy'n blodeuo megis y gwlithlys.		
ACA Afon Wysg	Tywi yn union gerllaw.	Uchaf	Oes	Rhywogaethau Atodiad II sy'n brif reswm dros ddewis y safle: 1095 Llysywen bendoll y môr 1096 Llysywen bendoll y nant 1099 Llysywen bendoll yr afon 1103 Gwangen 1106 Eog yr lwerydd 1163 Penlletwad 1355 Dyfrgi Cynefinoedd Atodiad I yn bresennol fel nodwedd gymhwysol, ond heb fod yn brif reswm dros ddewis y safle: 3260 cyrsiau dŵr ar lefelau gwastatir i lefelau mynyddig â llystyfiant <i>Ranunculus fluitantis</i> a <i>Callitriche-Batrachion</i>. Rhywogaethau Atodiad II yn bresennol fel nodwedd gymhwysol, ond heb fod yn brif reswm dros ddewis y safle hwn: 1102 Herlyn	- Rhywogaethau estron goresgynnol (Risg ganolig I01) - Pori (Risg uchel A04) - Gweithgareddau coedwigaeth (Risg isel B07) - Llygredd i ddyfroedd wyneb (llynol a thirol, morol a halltog) (Risg uchel H01) - Llygredd pridd a gwastraff solet (ac eithrio gollyngiadau) (Risg isel H05) - Newidiadau a achosir gan bobl mewn amodau hydrolig (Risg uchel J02) - Rheoli a defnyddio fforestydd a phlanhigfeydd (Risg ganolig B02) - Addasiadau ecosystemau eraill (Risg ganolig, J03)	- Dylai'r gallu i'r cynefinoedd yn yr ACA i gynnal pob nodwedd ar lefelau poblogaeth sydd bron yn naturiol, fel y pennir gan brosesau a nodweddion morffolegol ecolegol a hydro heb eu haddasu yn bennaf, gael ei gynnal cyn belled ag y bo modd, neu ei adfer lle bo angen. - Dylai statws ecolegol yr amgylchedd dŵr fod yn ddigonol i gynnal poblogaeth sefydlog neu gynyddol o bob nodwedd. Bydd hyn yn cynnwys elfennau o ansawdd a maint dŵr, cynefin ffisegol a chyfansoddiad a strwythur cymunedol. - Dylid cadw trefn llif, ansawdd dŵr a chynefin ffisegol mewn cyflwr bron yn naturiol, neu eu hadfer i gyflwr bron yn naturiol cyn belled ag y bo modd, er mwyn cefnogi cydlynïad strwythur a swyddogaeth ecosystem ar draws ardal gyfan yr ACA. - Dylid cynnal pob safle bridio, silio a meithrin hysbys o nodweddion arbennig cyn belled ag y bo modd, ac eithrio pan fo prosesau naturiol yn achosi iddynt newid. - Ni fydd llifoedd, ansawdd dŵr, ansawdd a maint swbstrad mewn safleoedd silio pysgod ac ardaloedd meithrin yn cael eu disbyddu gan weithgareddau tynnu dŵr, gollyngiadau, peirianeg neu echdynnu graean neu effeithiau eraill i'r graddau y caiff y safleoedd hyn eu difrodi neu eu dinistrio. - Dylai cynllun ffurf a phroffil yr afon fod heb eu haddasu yn bennaf. Bydd addasiadau ffisegol sy'n cael effaith andwyol ar gyfanrwydd yr ACA, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, wrthgloddiau ar lannau afonydd llifwaddodol gweithredol gan ddefnyddio carreg, concrit neu ddeunyddiau wastraff, echdynnu graean mewn modd anaddas, ychwanegu neu ryddhau gormod o waddodion mân, yn cael eu hosgoi. - Dylid addasu ffactorau artiffisial sy'n effeithio ar allu pob nodwedd rywogaeth i feddiannu amrediad llawn ei thiriogaeth naturiol lle bo angen er mwyn caniatáu iddynt dramwyo. - Ni ddylid addasu ffactorau naturiol megis rhaeadrau, a allai gyfyngu ar diriogaeth naturiol nodwedd rywogaeth neu wasgariad rhwng poblogaethau sydd wedi'u hynysu'n naturiol. - Ni fydd llifoedd yn ystod cyfnodau mudo arferol llysywen bendoll y môr a llysywen bendoll yr afon yn cael eu disbyddu gan weithgareddau tynnu dŵr i'r graddau bod tramwyo i fyny'r afon i safleoedd silio yn cael ei rwystro. - Mae niferoedd y nodwedd yn yr ACA yn sefydlog neu'n cynyddu dros yr hirdymor. - Nid yw tiriogaeth naturiol y nodwedd yn yr ACA yn lleihau ac nid yw'n debygol o leihau yn y dyfodol rhagweladwy.	Sgriniwyd i Mewn.	Cysylltiad hydrolegol. Mae'r tarddle (Cronfa Ddŵr Wysg) wedi'i leoli o fewn ffin Ardal yr LFRMS yn union i fyny'r afon o'r safle dynodedig.

Safle Dynodedig	Ardal Afon	Basn	Cysylltedd Hydrolegol	Nodweddion Cymhwysol	Pwysau Presennol	Amcanion Cadwraeth	Sgriniwyd i mewn/allan	Cyfiawnhad
						- Mae yna gynefin digon mawr i gynnal poblogaeth y nodwedd yn yr ACA yn y tymor hir. - Mae poblogaeth y dyfrgwn yn sefydlog neu'n cynyddu dros y tymor hir, ac mae hynny'n adlewyrchu capasiti cynnal y cynefin fel y pennir hynny gan lefelau naturiol digonedd ysglyfaeth ac ymddygiad tiriogaethol cysylltiedig. - Nid yw tiriogaeth naturiol dyfrgwn yn cael ei lleihau nac yn debygol o leihau. - Ystyrir bod yr ardal yn ffurfio cynefin bridio addas ar gyfer dyfrgwn. - Mae'n rhaid i ffynonellau bwyd eraill fod yn ddigonol er mwyn cynnal y niferoedd. - Ni ddylai maint y boblogaeth gael ei gyfyngu gan argaeledd safleoedd bridio addas heb eu tarfu. Lle mae'r rhain yn annigonol, dylid eu creu trwy gyfoethogi cynefinoedd a, lle bo angen, darparu gwalau artiffisial. Ni ddylai unrhyw safle bridio dyfrgwn fod yn destun lefel o aflonyddwch allai effeithio'n niweidiol ar lwyddiant bridio. Pan fo angen, rhaid rheoli lefelau aflonyddwch a allai fod yn niweidiol. - Dylai tiriogaeth naturiol cymunedau planhigion a gynrychiolir o fewn y nodwedd hon fod yn sefydlog neu gynyddu.		
ACA Afon Gwy	D/B		Nac oes	Cynefinoedd Atodiad I sy'n brif reswm dros ddewis y safle hwn: 3260 Cyrsiau dŵr ar lefelau gwastatir i lefelau mynyddig â llystyfiant <i>Ranunculion fluitantis</i> a <i>Callitricho-Batrachion</i> Rhywogaethau Atodiad II sy'n brif reswm dros ddewis y safle: 1092 Cimwch yr afon crafanc wen 1095 Llysywen bendoll y môr 1096 Llysywen bendoll y nant 1099 Llysywen bendoll yr afon 1103 Gwangen 1106 Eog yr lwerydd 1163 Penlletwad 1355 Dyfrgi Cynefinoedd Atodiad I yn bresennol fel nodwedd gymhwysol, ond heb fod yn brif reswm dros ddewis y safle hwn: 7140 Mignenni pontio a chorsydd crynedig	- Newidiadau a achosir gan bobl mewn amodau hydrolig (Risg uchel J02) - Llygredd dŵr morol (Risg ganolig J03) - Rhywogaethau estron goresgynnol (Risg uchel I01) - Llygredd i ddŵr daear (Ffynonellau pwynt a ffynonellau gwasgaredig) (Risg uchel H02) - Rheolaeth a Defnydd Fforestydd a Phlanhigfeydd (Risg uchel B02)	Sicrhau bod cyfanrwydd y safle yn cael ei gynnal neu ei adfer, a sicrhau bod y safle yn cyfrannu at gyflawni statws cadwraeth ffafriol ei nodweddion cymhwysol trwy gynnal neu adfer: - Ehangder a dosbarthiad cynefinoedd naturiol cymhwysol a chynefinoedd rhywogaethau cymhwysol - Strwythur a swyddogaeth (gan gynnwys rhywogaethau nodweddiadol) cynefinoedd naturiol cymhwysol. - Strwythur a swyddogaeth cynefinoedd rhywogaethau cymhwysol. - Y prosesau ategol y mae cynefinoedd naturiol cymhwysol a chynefinoedd rhywogaethau cymhwysol yn dibynnu arnynt. - Poblogaethau rhywogaethau cymhwysol - Dosbarthiad rhywogaethau cymhwysol o fewn y safle.	Sgriniwyd allan.	Er o fewn 2.5km, o ystyried y topograffeg lleol a'r pellter, ni ystyrir bod yr ACA yn gysylltiedig ag Ardal yr LFRMS ac felly caiff ei sgrinio allan.

Ymarfer Sgrinio Safleoedd Dynodedig

Safle Dynodedig	Ardal Afon	Basn	Cysylltedd Hydrolegol	Nodweddion Cymhwysol	Pwysau Presennol	Amcanion Cadwraeth	Sgriniwyd i mewn/allan	Cyfiawnhad
				Rhywogaethau Atodiad II yn bresennol fel nodwedd gymhwysol, ond heb fod yn brif reswm dros ddewis y safle hwn: 1102 Herlyn				

Arcadis Consulting (UK) Limited

Ystafell 4D, Pedwerydd Llawr
Tŷ Hodge
114-116 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1DY
Ffôn: +44 (0)29 2092 6700

arcadis.com